

Agenda

Teitl y cyfarfod:	Cyfarfod Cyhoeddus Bwrdd CNC
Dyddiad y cyfarfod:	Dydd Mercher, 16 Gorffennaf 2025
Amser y cyfarfod:	2pm – 5pm

Amser	Eitem
Materion rhagarweiniol	
2pm (5 munud)	Eitem 1. Dechrau'r cyfarfod • Croeso • Datgan buddiannau • Egluro trefn y cyfarfod Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd) Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau o fuddiant
2.05pm (5 munud)	Eitem 2. Adolygu'r cofnodion a chofnod y camau gweithredu 2A. Adolygu cofnodion y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 21 Mai 2B. Adolygu cofnodion y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 22 Mai Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd) Crynodeb: CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod blaenorol
Gosod y sefyllfa	
2.10pm (10 munud)	Eitem 3. Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y cadeirydd Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd) Crynodeb: NODI diweddariad y cadeirydd i'r bwrdd

2.20pm
(20 munud)

Eitem 4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr

Noddwr a chyflwynydd: Ceri Davies, Prif Weithredwr Dros Dro

Crynodeb: NODI'R sefyllfa bresennol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd ar y prif weithgareddau

Cyfeirnod y papur: 25-07-B08

Llywodraethu, Risg a Sicrwydd

2.40pm
(20 munud)

Eitem 5. Adroddiadau diweddarau'r pwyllgorau a'r fforymau

Noddwyr a chyflwynwyr: Cadeiryddion y pwyllgorau

- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg – 9 Gorffennaf (ar lafar)
- Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth – dim cyfarfod (ar lafar)
- Pwyllgor Cyllid – 19 Mehefin

Cyfeirnod y papur: 25-07-B09

- Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd – 25 Mehefin

Cyfeirnod y papur: 25-07-B10

- Pwyllgor Ystadau Tir – dim cyfarfod (ar lafar)
- Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid – 18 Mehefin

Cyfeirnod y papur: 25-07-B11

- Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig – 3 Gorffennaf (ar lafar)

- Fforwm Rheoli Tir Cymru

Cyfeirnod y papur: 25-07-B12

- Fforwm Pysgodfeydd Cymru (ar lafar)
- Fforwm Rheoli Dŵr Cymru – 10 Gorffennaf (ar lafar)
- Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru (ar lafar)

Crynodeb: NODI'R wybodaeth ddiweddaraf gan bwyllgorau'r bwrdd a fforymau CNC, o fewn a thu allan, a'r cyfarfodydd a gynhaliwyd

Cyflawni ein cynllun

3pm
(20 munud)

Eitem 6. Adroddiad Perfformiad Cyllid

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

Crynodeb: CYMERADWYO'R sefyllfa ariannol ddiweddaraf

Cyfeirnod y papur: 25-07-B13

3.20pm (15 munud)	Egwyl
3.35pm (40 munud)	Eitem 7. Diweddariad chwarterol ar Ddangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes Noddwr: Ceri Davies, Prif Weithredwr Dros Dro Cyflwynwyr: Y Tîm Gweithredol Crynodeb: CRAFFU AR yr adroddiad chwarterol Cyfeirnod y papur: 25-07-B14
4.15pm (10 munud)	Eitem 8. Adroddiad chwarterol ar lesiant, iechyd a diogelwch (adroddiad blynyddol) Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol Cyflwynydd: Chris Jones, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Ilesiant, iechyd a diogelwch Crynodeb: CYMERADWYO'R adroddiad blynyddol Cyfeirnod y papur: 25-07-B15
4.25pm (5 munud)	Eitem 9. Unrhyw fater arall
4.30pm (10 munud)	Eitem 10. Sut wnaethon ni berfformio yn y cyfarfod hwn? Noddwr: Syr David Henshaw, Cadeirydd Crynodeb: Adolygiad o'r cyfarfod
4.40pm	Cau'r cyfarfod
4.40pm (20 munud)	Sesiwn holi ac ateb gyhoeddus
5pm	Cau'r cyfarfod cyhoeddus

Cofnodion heb eu cadarnhau

Teitl y cyfarfod:	Cyfarfod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru
Lleoliad:	Caerfyrddin a thrwy gyfrwng Microsoft Teams
Dyddiad y cyfarfod:	21 Mai 2025
Aelodau yn bresennol:	Syr David Henshaw Ceri Davies, Prif Weithredwr Dros Dro Dr Hushneara Begum Dr Rebecca Colley-Jones Dr Calvin Jones Lesley Jones Yr Athro Rhys Jones Mark McKenna Adam Taylor
Aelodau'r Tîm Gweithredol yn bresennol:	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Dominic Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
Hefyd yn bresennol:	Phil Williams, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (pob eitem) Meinir Wigley, Pennaeth Cyfathrebu a Thrawsnewid Digidol (pob eitem) Sarah Williams, Pennaeth y Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni (pob eitem) Ross Akers, Rheolwr, Cynllunio Strategol a Buddsoddi ar gyfer Perygl Llifogydd (pob eitem) Rachel Chamberlain, Pennaeth Dros Dro Stiwardiaeth Tir (pob eitem) Ruth Jenkins, Pennaeth Cynllunio Datblygu a Morol (pob eitem)

	Mary Lewis, Pennaeth Dros Dro Stiwardiaeth Tir (pob eitem) Huwel Manley, Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru (pob eitem) Eirian McDonald, Rheolwr Rheoleiddio'r Dyfodol (pob eitem) Rick Park, Arweinydd y Rhaglen Addasu Arfordirol (Rheolwr Creu Cynefinoedd Cenedlaethol) (pob eitem) Nicola Rimmington, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Prosesau Ffisegol y Môr a'r Arfordir a Rheoli Arfordirol (pob eitem) Fen Turner, Arweinydd Tîm, Strategaeth a Pholisi Adnoddau Naturiol a Llesiant (pob eitem) Clive Walmsley, Uwch-gynghorydd Arbenigol, Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio (pob eitem) Andrew Wright, Uwch-gynghorydd Arbenigol Iechyd Planhigion a Throsglwyddo Gwybodaeth Ymchwil – Eitem 4 a 5 Lynette Bowley, Arweinydd Tîm, Ymgyrchoedd a Phrosiectau – Eitem 8
Cyfranogwyr allanol:	Rachel Gregg, Pwyllgor Newid Hinsawdd Luke Jones, Pwyllgor Newid Hinsawdd Elen Shepherd, Llywodraeth Cymru Helen Nelson, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Sylwedyddion o'r cyhoedd yn bresennol:	Aelodau ychwanegol o'r cyhoedd
Ymddiheuriadau:	Dr Pete Fox Kath Palmer Helen Pittaway
Ysgrifenyddiaeth:	Natalie Williams, Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd ac Arweinydd Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Rhiannon Spencer, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Deb Lee, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Sian Johnston, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Datganiadau o fuddiant	Dr Calvin Jones – Rheolwr Gyfarwyddwr Jones the Numbers Cyf. Yr Athro Steve Ormerod – aelod o banel Grŵp Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru; Is-lywydd y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar; Cynrychiolydd yn y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur; Cadeirydd y Grŵp Cyngori ar Wyddoniaeth.

Dr Rebecca Colley-Jones – aelod o'r Byrddau
Gwasanaethau Cyhoeddus

Mark McKenna – cais cynllunio cyfredol gyda Down to
Earth

Eitem 1. Dechrau'r cyfarfod

Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw, Cadeirydd

1. Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, ac eglurodd batrwm y cyfarfod. Nodwyd datganiadau o fuddiant ac ymddiheuriadau fel uchod.

Eitem 2. Cyflwyniad i Amcan Llesiant 2 a fideo amdano

Noddwr: Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol;
Ruth Gregg, Pwyllgor Newid Hinsawdd; Luke Jones, Hinsawdd

2. Amlinellodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol ddiben y sesiwn, sef rhoi trosolwg o Amcan Llesiant 2. Chwaraewyd fideo Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) am fyd natur a phobl yn ffynnu gyda'n gilydd.
3. Cyflwynodd Ruth Gregg, Uwch-ddadansoddwr, Tir, Amaethyddiaeth a Natur y Pwyllgor Newid Hinsawdd, a Luke Jones, Dadansoddwr, Gweinyddiaethau Datganoledig, y Pwyllgor Newid Hinsawdd gyd-destun am y cyngor o'r pedwerydd Briff Cyllideb Garbon newydd. Disgwylid rhyddhau adroddiad cynnydd y DU i Lywodraeth y DU ym mis Mehefin 2025, ac roedd gwaith wedi dechrau ar yr asesiad o risgiau newid yn yr hinsawdd, a fyddai'n cael ei gyhoeddi yn 2026.
4. Tynnwyd sylw at negeseuon allweddol o'r briff, gan gynnwys y lefel, y dosbarthiad a'r sbardunau a argymhellir ar gyfer lleihau allyriadau mewn gwahanol gyfnodau cyllideb garbon. Eglurwyd y llwybr cytbwys ar gyfer defnydd tir yng Nghymru hyd at 2050, gyda'r argymhelliad y byddai tua 90% o fawndiroedd yr ucheldir yn cael eu hail-wlychu a'u hadfer.
5. Meysydd nad oedd wedi'u cynnwys yn y briff ar y pryd oedd carbon glas, dad-ddofi tir ac ailgyfiant naturiol oherwydd cyfyngiadau o ran tystiolaeth, ond byddai briff gwyllo yn cael ei gynnal. Amlinellwyd hefyd ffynonellau allyriadau ac allyriadau negyddol hyd at 2050. Dull y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd oedd bod allyriadau amaethyddol yn cael eu gwrthbwysu gan ddalfa garbon net tir, ac er mwyn cyflawni hyn roedd angen cefnogaeth ar ffermwyr a rheolwyr tir. Roedd y cyngor yn cyd-fynd â blaenoriaethau a nodir ym mholisi Llywodraeth Cymru.
6. Mewn ymateb i ymholiad, esboniwyd sail y cyngor ynghylch ôl troed yn seiliedig ar ddefnydd.
7. Croesawyd y cyflwyniad gan y bwrdd. Eglurwyd, wrth gyfrif am allyriadau carbon alltraeth, fod rheolau cyfrifyddu carbon rhyngwladol safonol wedi'u cymhwyso, a bod tueddiadau newidiol oherwydd mewnforio yn cael eu monitro. Deallwyd bod mawndiroedd yn ardal dir gyfyngedig ac roedd dull modelu y Pwyllgor Newid

Hinsawdd yn unol â'r dull rhestr eiddo. Nodwyd y trafodaethau band C rhyngwladol parhaus ar addasiadau i ffiniau carbon.

8. Holodd y bwrdd a oedd potensial gwahanol gynefinoedd i ddal a storio carbon wedi'i ystyried. Cydnabuwyd yr ansicrwydd yn y sector defnydd tir, ac roedd y gwaith modelu o ran lleihau allyriadau wedi defnyddio'r rhagamcanion newid a choedwigaeth a ddarparwyd gan Ganolfan Ecoleg a Hydroleg y DU. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd hyn yn cynnwys yr effaith y byddai newid hinsawdd yn y dyfodol yn ei chael ar allyriadau.
9. Eglurwyd nad oedd y rhagdybiaethau hyd at 2050 yn cynnwys amcangyfrifon o golli cynefinoedd gan fod yr effeithiau'n anodd eu rhagweld, a byddent yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Roedd egwyddorion wedi'u hymgorffori i sicrhau bod camau gweithredu tir newydd yn briodol ac yn cael eu rheoli i liniaru risgiau.
10. Roedd y briff wedi cael ei groesawu gan Lywodraeth Cymru a byddai'n llywio'r cynllun newydd ar gyfer Cyllideb Garbon 3. Dywedodd Elen Shepherd (Llywodraeth Cymru) fod y cyllidebau a'r targedau a osodwyd yn mynd yn fwyfwy anodd, a bod angen dod o hyd i ffordd gyfiawn o gyrraedd sero net erbyn 2050. Byddai'r cydfanteision a'r cydadweithio rhwng lliniaru ac addasu yn cael eu hystyried, a'u hymgorffori yn yr asesiad o risgiau newid hinsawdd. Nododd Helen Nelson, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, hefyd y cydadweithio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dylid cydbwysu opsiynau i wneud y mwyaf o gyfleoedd a manteision i gymunedau drwy gamau ynni lleol ar raddfa fach â chatau ynni ar raddfa fawr.
11. Roedd amcangyfrif modelu diweddaraf CNC yn dangos oddeutu 600,000 tonnall o ddal a storio carbon net o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Byddai'n bwysig ystyried sut mae'r carbon sy'n cael ei atal yn flynyddol ar yr ystad yn bwydo i darged ac uchelgais Llywodraeth Cymru o gael sector cyhoeddus sero net. Codwyd pryderon ynghylch modelu a sicrhawyd bod model cyfrifyddu carbon Forest Research, Carbine, a gydnabyddir yn rhyngwladol, yn cael ei ddefnyddio, gydag amodau.
12. Roedd gan CNC rywfaint o ddylanwad ar amaethyddiaeth a rôl mewn trwyddedu a chaniatáu datblygiadau cynllunio carbon isel, ond nodwyd y dylid blaenoriaethu lle mae gan CNC y dylanwad mwyaf.

Eitem 3. Trosolwg o Amcan Llesiant 2 a chynnydd

Noddwr: Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol
Cyflwynwyr: Mary Lewis, Pennaeth Rheoli a Pholisi Adnoddau Naturiol; Clive Walmsley, Uwch-gynghorydd Arbenigol, Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio; Ross Akers, Rheolwr, Cynllunio Strategol a Buddsoddi ar gyfer Perygl Llifogydd

13. Cyflwynwyd trosolwg o Amcan Llesiant 2, y cynnydd, a'r camau i'w cymryd, ac roedd uchafbwyntiau'r pum thema yn cynnwys: Atebion sy'n seiliedig ar natur yn eang, rheoli risgiau newid hinsawdd ac addasu iddynt, lleihau allyriadau, sicrhau bod pobl, cymunedau a busnesau'n gweithredu'n barhaus ar y newid yn yr

hinsawdd, a sicrhau bod CNC yn sefydliad enghreifftiol ar gyfer creu sector cyhoeddus carbon-niwtral. Byddai sicrhau buddsoddiad ac adnoddau pellach yn bwysig ond gellid gweld cynnydd, ac yr oedd yn cael ei groesawu. Byddai Cynllun Addasu a Chynllun Sero Net CNC yn cael eu dosbarthu ar wahân.

CAM GWEITHREDU: Bydd Ysgrifenyddiaeth y bwrdd yn dosbarthu Cynllun Addasu a Chynllun Sero Net CNC i'r bwrdd.

Eitem 4. Trafodaeth strategol 1: Blaenoriaethu ein hymdrech ar gyfer yr effaith fwyaf wrth gyflawni atebion ar sail natur i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd

Noddwr: Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol
Cyflwynwyr: Mary Lewis, Pennaeth Rheoli a Pholisi Adnoddau Naturiol

14. Cyflwynwyd y drafodaeth gan Gyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol. Rhoddwyd cyflwyniad gan y Pennaeth Rheoli a Pholisi Adnoddau Naturiol. Atgoffwyd y bwrdd am ymweliad safle diweddar y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig lle trafodwyd atebion ar sail natur. Gofynnwyd i'r bwrdd ystyried sut y gallai CNC flaenoriaethu ei ymdrech i wneud y mwyaf o effaith atebion ar sail natur i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'r rôl y gallai ei chwarae.
15. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cael trosolwg strategol cyffredinol. Awgrymwyd bod angen i CNC fod yn fwy ystwyth ac addasol, er mwyn deall risgiau gweithredu a pheidio gweithredu. Gellid defnyddio ac addasu rolau CNC fel yr awgrymwyd yn y cyflwyniad.
16. Holodd y bwrdd ynghylch rôl gynghori CNC gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i wella effeithiau newid hinsawdd yn ddigonol. Codwyd pryderon y gallai fod bwlch o ran rôl arweinydd amgylcheddol ar lefel gymunedol wrth gael gwared ar staff o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn dilyn yr Achos dros Newid. Gallai aelodau unigol o'r cyhoedd a pherchnogion tir gael effaith gadarnhaol, ac awgrymwyd gweithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac eraill i leihau rheoleiddio. Nodwyd bod angen i CNC newid ei feddylfryd a mabwysiadu ffyrdd gwahanol o weithio.
17. Trafodwyd yr elfen cyfiawnder cymdeithasol, ac awgrymwyd meddwl ble fyddai'r effaith fwyaf ar bobl Cymru. Nodwyd mai'r cymunedau mwyaf difreintiedig oedd y rhai yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan newid yn yr hinsawdd. Felly, roedd dadl dros atebion ar sail natur yn cyflawni er manteision cymdeithasol ac roedd cyfleoedd, megis gorfodi cwmnïau dŵr i dalu am atebion ar sail natur. Roedd cyfle hefyd i weithio gyda datblygiadau mawr, a gellid cynnwys atebion ar sail natur mewn cytundebau cyn iddynt ddechrau.
18. Cytunodd y bwrdd fod angen ymgysylltu â'r sector preifat, a rhoddwyd enghraifft o'r Tîm Datgarboneiddio Diwydiannol yn meithrin ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid. Roedd angen bod yn rhagweithiol a rhannu arfer gorau yn fewnol ac yn allanol. Gallai CNC fod yn fwy beiddgar a gweithio mewn ffordd wahanol pe bai'r risgiau'n

cael eu nodi a phe bai pawb, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn cael gwybod. Nodwyd y gallai'r rownd nesaf o ddatganiadau ardal helpu CNC i flaenoriaethu.

Eitem 5. Trafodaeth strategol 2: Ein rôl o ran y tir yn ein gofal

Noddwr: Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol
Cyflwynwyr: Rachel Chamberlain, Pennaeth Dros Dro Stiwardiaeth Tir, Andrew Wright, Uwch-gynghorydd Arbenigol Iechyd Planhigion a Trosglwyddo Gwybodaeth Ymchwil

19. Cyflwynwyd y trafodaeth gan Bennaeth Dros Dro Stiwardiaeth Tir. Rhoddwyd cyflwyniad gan Uwch-gynghorydd Arbenigol Iechyd Planhigion a Throsglwyddo Gwybodaeth Ymchwil. Disgrifiwyd atebion ar sail natur ar y tir sydd yng ngofal CNC. Eglurwyd sut i greu coetiroedd newydd, a rhoddwyd enghraifft. Eglurwyd egwyddorion rheoli safleoedd coetiroedd hynafol.
20. Cynhaliwyd trafodaeth, a chytunwyd y gellid darparu rhesymau dros wneud penderfyniadau ar y tir sydd yng ngofal CNC i'r bwrdd. Roedd angen tystiolaeth i ddangos bod y camau a gymerwyd o ran yr atebion ar sail natur yn dod â manteision, a gofynnwyd sut y byddai'r dystiolaeth hon yn cael ei hadolygu i sicrhau ei bod yn mynd i'r cyfeiriad cywir. Roedd angen dull rheoli addasadol.
21. Roedd angen amynedd o ran rhai o'r atebion ar sail natur gan y gallai gymryd blynyddoedd i'r manteision gael eu gwireddu; fodd bynnag, roedd angen i CNC feddwl am sut y gallent adrodd hanes yr hyn a oedd yn digwydd ar y pryd i sicrhau ei fod yn mynd i'r cyfeiriad cywir.

Eitem 6. Trafodaeth strategol 3: Rhwystrau a chyfleoedd ar gyfer cyflawni yn erbyn y blaenoriaethau ar gyfer cyflawni'r atebion ar sail natur

Noddwr: Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol
Cyflwynwyr: Clive Walmsley, Uwch-gynghorydd Arbenigol, Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio

22. Rhoddwyd cyflwyniad gan yr Uwch-gynghorydd Arbenigol, Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio. Amlygwyd y rhwystrau allweddol i brif ffrydio darpariaeth atebion ar sail natur i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac roeddent yn cynnwys disgwyliadau afrealistig a dull silo o ddarpariaeth. Dangoswyd y ffyrdd allweddol o brif ffrydio darpariaeth atebion ar sail natur ac roeddent yn cynnwys naratif clir ar yr achos dros atebion ar sail natur ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau o ran eu gwerth.
23. Bu'r bwrdd yn trafod y rhwystrau o ran prif ffrydio darpariaeth atebion ar sail natur. Mewn ymateb i ymholiad ynghylch Comisiwn Seilwaith, nodwyd bod cydnabyddiaeth o atebion ar sail natur, ond nad oedd wrth wraidd ei waith. Nodwyd bod angen i CNC annog cydlynu a chydweithio, a rhoddwyd enghraifft o sut roedd hyn wedi gweithio ar ateb ar sail natur yn ymwneud â llifogydd.

24. Byddai'n fuddiol ymgysylltu â chymunedau a'u cael i gymryd rhan fel y gallent deimlo budd yr atebion ar sail natur, yn ogystal â dangos pa waith a oedd eisoes yn mynd rhagddo.
25. Gofynnwyd sut yr oedd manteision o brosiectau yn cael eu cofnodi a'u categorio, ac a ddylai'r sector preifat ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb. Awgrym arall oedd a ellid gweithredu rhagor o raglenni cenedlaethol i blethu atebion ar sail natur i mewn.
26. Nodwyd ei bod yn bwysig cofio bod yr egwyddorion eisoes ar waith, a bod angen rhoi rhyddid i staff a'u sicrhau bod y bwrdd, y Tîm Gweithredol, a'r Tîm Arwain yn gefnogol. Awgrymwyd bod angen model busnes gwahanol lle byddai CNC yn rhagweithiol drwy ddarparu atebion i randdeiliaid. Nodwyd bod angen i CNC fod yn radical a dechrau gweithio o amgylch y cwsmer a'r cymunedau, a bod angen newid diwylliant.

Eitem 7. Crynodeb ac adborth

Noddwr: Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol
Cyflwynwyr: Mary Lewis, Pennaeth Rheoli a Pholisi Adnoddau Naturiol, Clive Walmsley, Uwch-gynghorydd Arbenigol, Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio

27. Rhoddodd Pennaeth Rheoli a Pholisi Adnoddau Naturiol grynodeb o'r sesiwn strategol. Roedd y bwrdd wedi trafod y gwaith parhaus mewn perthynas ag Amcan Llesiant 2 a beth arall y gellid ei wneud. Cytunwyd bod angen meddwl y gallai fod nifer o fanteision, mewn perthynas ag atebion ar sail natur, hinsawdd, a llygredd. Nodwyd gwerth ymgysylltu ar raddfa fach, gan gynnwys yr angen i gyfleu'r manteision yn ehangach.
28. Roedd ymweliad safle'r bwrdd yn enghraifft o sut mae nifer o dimau CNC eisoes yn cydweithio mewn gwahanol rannau o'r sefydliad. Nodwyd bod CNC hefyd yn cydweithio ag eraill y tu allan i'r sefydliad.
29. Amlinellwyd y camau nesaf. Roedd CNC wedi bod yn rhan o gyfarfod â Rhwydwaith Ewropeaidd Penaethiaid Asiantaethau Cadwraeth Natur, lle trafodwyd atebion ar sail natur.

Eitem 8. Dull eirioli ar gyfer Amcan Llesiant 2

Noddwr: Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol
Cyflwynwyr: Meinir Wigley, Pennaeth Cyfathrebu a Thrawsnewid Digidol; Lynette Bowley, Arweinydd Tîm, Ymgyrchoedd a Phrosiectau

30. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid, a Masnachol yr eitem. Byddai'r dull eirioli yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid ym mis Mehefin i'w drafod ymhellach. Rhoddodd Arweinydd y Tîm Ymgyrchoedd a Phrosiectau drosolwg o'r dull eiriol. Roedd y tîm wedi manteisio ar y cyfle i fireinio'r dull, a fyddai'n cael ei gyflwyno'n raddol, yn unol â'r amcanion Llesiant a'r cynllun corfforaethol. Rhannwyd enghraifft o'r math o eiriolaeth y gallai CNC edrych i'w harchwilio, a fyddai hefyd yn cyd-fynd â'r amcanion Llesiant.

31. Bu'r bwrdd yn trafod y dull eiriolaeth ac roeddent yn croesawu'r ffocws ar atebion ar sail natur. Holwyd ai hon oedd yr ymgyrch eiriolaeth gywir i ganolbwyntio arni i gefnogi Amcan Llesiant 2. Byddai'r enghraifft a ddarparwyd o'r dull sy'n ymwneud â rheoli'r perygl o lifogydd yn lle da i ddechrau'r gwaith eiriolaeth. Byddai'r negeseuon a ddefnyddir o fewn y dull yn amrywio yn dibynnu ar y gynulleidfa, ac roedd y papur wedi'i ddatblygu i ddiwallu gwahanol rannau'r dull.
32. Awgrymwyd y gellid cynnwys yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn y dull hefyd, a gellid defnyddio canfyddiadau CNC fel dangosyddion procsi.
33. Dywedodd Elen Shepherd, Llywodraeth Cymru, fod y timau o fewn CNC a Llywodraeth Cymru yn cydweithio, a bod angen eglurder ynghylch llais pwy fyddai'n cael ei gyfleu i gael yr effaith fwyaf.
34. Cytunodd y bwrdd ar y dull eiriolaeth ar gyfer Amcan Llesiant 2.

PENDERFYNIAD: Cytunodd y bwrdd ar y dull eiriolaeth ar gyfer Amcan Llesiant 2.

Eitem 9. Sut wnaethon ni berfformio yn y cyfarfod hwn?

Noddwr: Syr David Henshaw, Cadeirydd

35. Cyflwynwyd yr eitem gan y cadeirydd. Bu'r bwrdd yn trafod effeithiolrwydd y cyfarfod, a diolchwyd i'r rhai a fu'n rhan o'r sesiwn strategol. Roedd yr ymweliad â'r safle yn ffordd gadarnhaol o ddangos y gwaith a oedd yn mynd rhagddo o fewn CNC a'r timau yn ne-orllewin Cymru.

Eitem 10. Unrhyw fater arall

36. Nid oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben

Cofnodion heb eu cadarnhau

Teitl y cyfarfod:	Cyfarfod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru
Lleoliad:	Caerfyrddin a thrwy gyfrwng Microsoft Teams
Dyddiad y cyfarfod:	22 Mai 2025
Aelodau yn bresennol:	Yr Athro Steve Ormerod, Dirprwy Gadeirydd Ceri Davies, Prif Weithredwr Dros Dro Dr Hushneara Begum Dr Rebecca Colley-Jones Lesley Jones Yr Athro Rhys Jones Mark McKenna Helen Pittaway
Aelodau'r Tîm Gweithredol yn bresennol:	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Dominic Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
Hefyd yn bresennol:	Phil Williams, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (pob eitem) Meinir Wigley, Pennaeth Cyfathrebu a Thrawsnewid Digidol (pob eitem) Rob Bell, Pennaeth Cyllid – Eitem 6 Huwel Manley, Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru – Eitem 7 Phil Morgan, Arweinydd y Tîm Rheoli Tir – Eitem 7 Ellen Humphrey, Uwch-swyddog, Gweithrediadau Coedwigoedd – Eitem 7 Jen Day, Swyddog 2, Tîm yr Amgylchedd – Eitem 7 Rhodri Morgan, Uwch-swyddog, Rheoleiddio Diwydiant a Gwastraff – Eitem 7 Caroline Drayton, Rheolwr Gweithrediadau – Eitem 7

Sylwedyddion Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn bresennol:	Neb
Sylwedyddion o'r cyhoedd yn bresennol:	Aelodau ychwanegol o'r cyhoedd
Ymddiheuriadau:	Syr David Henshaw, Cadeirydd Dr Pete Fox Dr Calvin Jones Kath Palmer Helen Pittaway
Ysgrifenyddiaeth:	Natalie Williams, Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd ac Arweinydd Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Rhiannon Spencer, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

Eitem 1. Dechrau'r cyfarfod

Noddwr a chyflwynydd: Yr Athro Steve Ormerod, Dirprwy Gadeirydd

1. Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, ac eglurodd batrwm y cyfarfod. Nodwyd datganiadau o fuddiant ac ymddiheuriadau fel uchod.

Eitem 2. Adolygu'r cofnodion a chofnod y camau gweithredu

Noddwr a chyflwynydd: Yr Athro Steve Ormerod, Dirprwy Gadeirydd

Eitem 2A. Adolygu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth

2. Adolygwyd cofnodion cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd a gynhaliwyd ar 20 Mawrth, a chytunwyd arnynt.

Eitem 2B. Adolygu'r cofnod o gamau gweithredu cyhoeddus

3. Adolygwyd y cofnod o gamau gweithredu a chytunwyd ar y camau gweithredu a gwblhawyd.

Eitem 3. Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd

Noddwr a chyflwynydd: Yr Athro Steve Ormerod, Dirprwy Gadeirydd

4. Nid oedd unrhyw wybodaeth ddiweddaraf gan y Dirprwy Gadeirydd.

Eitem 4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr

Noddwr a chyflwynydd: Ceri Davies, Prif Weithredwr Dros Dro

5. Rhannodd y Prif Weithredwr Dros Dro yr wybodaeth ddiweddaraf ar eitemau yn ogystal â'r adroddiad ysgrifenedig. Nodwyd cyhoeddiad Adroddiad Seilwaith Amgylcheddol y Pwyllgor Newid Hinsawdd ar y gwaith craffu ar CNC. Amlinellwyd yr 11 argymhelliad ar gyfer CNC a nodir yn yr adroddiad, gydag un argymhelliad yn cael ei rannu'n rhannol â Llywodraeth Cymru. Nodwyd bod CNC wedi cynhyrchu datganiad mewn ymateb i'r adroddiad a roddwyd ar wefan CNC.
6. O ran y sancsiynau a'r digwyddiadau amgylcheddol, clywyd y byddai CNC yn adolygu'r camau i'w cymryd gyda'r unigolion perthnasol ynghylch y dirwyon dan sylw. Nodwyd y byddai gorchmynion adfer a chosbau mewn perthynas â'r sancsiynau sifil.
7. Cydnabuwyd y gwaith a wnaed gan y timau a oedd yn rhan o'r achos ar y cyd â Dŵr Cymru, a thynnwyd sylw at bwysigrwydd rôl reoleiddio CNC wrth ystyried natur cymhleth yr achos a'r taliadau cysylltiedig.
8. Mewn ymateb i ymholiad a godwyd ynghylch y tanau gwyllt diweddar, amlygwyd bod cyfuniad o ffactorau cyfrannol yn gysylltiedig, a oedd yn ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol. Roedd nifer y tanau gwyllt wedi lleihau yn ystod y deng mlynedd diwethaf a chadarnhawyd bod gan CNC ddyletswydd i ymateb i'r tanau a chefnogi'r timau tân ac achub. Roedd CNC yn gweithio i addasu'r coedwigoedd i'w gwneud yn fwy gwydn, a byddai contract fframwaith newydd yn cael ei roi ar waith.
9. Holodd y bwrdd a oedd CNC wedi ystyried defnyddio deallusrwydd artifisial. Roedd nifer o dimau wedi ymchwilio i ddefnyddio deallusrwydd artifisial, ond byddai angen creu polisiau a'u rhoi ar waith i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Roedd y timau hefyd yn y broses o adolygu'r cyfleoedd a oedd yn gysylltiedig â defnyddio Microsoft Copilot. Roedd Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu wedi bod i gyfarfod yr asiantaethau sy'n diogelu'r rhwydwaith lle trafodwyd deallusrwydd artifisial ymhellach, a byddai arfer gorau yn cael ei rannu. Roedd cyllideb fach yn cael ei dyrannu i archwilio potensial deallusrwydd artifisial, gyda'r timau tystiolaeth yn awyddus i ddefnyddio'r offeryn i gasglu tystiolaeth yn grynodebau. Roedd hyn wedi cael ei drafod yn y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth.
10. Trafodwyd ehangu chwarel Trefil ym Mlaenau Gwent. Roedd y gwrthdaro rhwng y gwahanol flaenoriaethau amgylcheddol yn cael ei drafod o fewn CNC a'r awdurdodau lleol, ac roedd galw am fwy o fframweithiau yng Nghymru yn ymwneud â defnydd tir. Byddai'r ardal hon yn rhan o'r archwiliad dwfn bioamrywiaeth, gan fod y dynodiad arfaethedig ar gyfer y parc cenedlaethol wedi'i leoli ar nifer sylweddol o dirweddau lle'r oedd hyn yn berthnasol.

Eitem 5. Adroddiadau diweddarau'r pwyllgorau a'r fforymau

Noddwyd a chyflwynwyd: Cadeiryddion y pwyllgorau

11. Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol ddiweddariad o gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 1 Mai. Roedd y Pwyllgor Cyllid wedi ystyried yr adroddiad ar y perfformiad ariannol ac wedi nodi'r rheswm dros y tanwariant yr adroddwyd amdano. Roedd yr eitemau eraill a drafodwyd yn

cynnwys gor-raglennu, a byddai ymarfer i nodi'r gwersi a ddysgwyd yn cael ei gwblhau ynghylch rheoli cyllideb trwy gydol y flwyddyn ariannol, a byddai'n cael ei adolygu gan y Pwyllgor Cyllid. Trafodwyd Cyllideb a Chynllun Busnes 2025–2026, a gwnaed newidiadau bach ers cyfarfod y bwrdd ym mis Mawrth. Nodwyd bod y costau o fewn y prosiect gosod telemetreg newydd wedi'u cymeradwyo.

12. Rhoddodd yr Athro Steve Ormerod o'r Pwyllgor Rheoli Risg Llifogydd yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod y pwyllgor hwnnw a gynhaliwyd ar 17 Ebrill. Roedd y pwyllgor wedi trafod y set sgiliau yn ymwneud â llifogydd o fewn y sector cyhoeddus a'r angen i sicrhau bod strwythur dilyniant gyrfa ar waith. Trafodwyd hefyd y diweddariad cyfalaf a'r achos busnes amlinellol yn Ninbych-y-pysgod, a fyddai hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid. Roedd pwyslais ar atebion ar sail natur, a fyddai'n cael eu prif ffrydio trwy waith y Pwyllgor Rheoli Risg Llifogydd.
13. Rhannodd Lesley Jones, a fu'n cadeirio cyfarfod diweddar y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, a gynhaliwyd ar 16 Mai, yr wybodaeth ddiweddaraf o'r cyfarfod hwnnw. Roedd aelodau newydd y bwrdd wedi'u croesawu i'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg. Bu'r pwyllgor yn trafod y cyflwyniad gan Archwilio Cymru a'r diweddariad ar y cyllid, gan gynnwys archwiliad manwl cynnar o'r cyfrifon gyda'r Tîm Cyllid. Trafodwyd hefyd rai o'r heriau yn ymwneud â'r angen i fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur yn gynnar, ac adroddiadau'r archwiliad mewnol. Roedd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg wedi cymeradwyo'r fformat a'r cyd-destun o fewn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, a chadarnhawyd y byddai'r adroddiad yn debygol o gael ei gyhoeddi ym mis Medi neu fis Hydref 2025.
14. Rhannodd yr Athro Steve Ormerod yr wybodaeth ddiweddaraf â'r bwrdd am gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth a gynhaliwyd ar 7 Mai. Roedd CNC bellach yn recriwtio i swydd Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth. Trafodwyd y cysylltiad rhwng yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, datganiadau ardal, a'r Polisi Adnoddau Naturiol. Roedd y timau bellach yn archwilio sut y gellid defnyddio deallusrwydd artiffisial wrth lunio nifer o adroddiadau.
15. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol drosolwg o gyfarfod y Pwyllgor Ystad Tir a gynhaliwyd ar 15 Mai. Cafodd y Gofrestr Risg Strategol ei thrafod, gan gynnwys y risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r tir yng ngofal CNC. Trafodwyd hefyd y dull o ymdrin â'r Strategaeth Fasnachol nesaf. Roedd ymarfer i nodi'r gwersi a ddysgwyd wedi'i gwblhau ynghylch y stormydd diweddar, gan gynnwys yr hyn yr oedd CNC wedi'i ddysgu o blannu coed, a beth fyddai polisi CNC ynghylch rheoli coetiroedd i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.
16. Rhoddodd Adam Taylor yr wybodaeth ddiweddaraf am ymweliad diweddar y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig â safle yn Aberdaugleddau, lle trafodwyd cynefinoedd a rhywogaethau, gwaith yr ardaloedd gwarchodedig, cronfeydd rhwydweithiau natur, a chadwraeth forol. Roedd yr ymweliad â'r safle yn cynnwys y gwaith i adfer afonydd arfordir Penfro, a'r ymyriadau sydd ar waith ar gyfer adfer cynefinoedd yn sgil llifogydd a sychder.

17. Roedd cyfarfod nesaf y Fforwm Pysgodfeydd wedi'i drefnu ar gyfer 10 Gorffennaf. Roedd y fforwm wedi trafod yr adroddiad ar olrhain pysgod a dynodiadau arwyddocaol yn flaenorol, pan gadarnhawyd bod rhai rhywogaethau pysgod mewn perygl.
18. Rhoddodd Lesley Jones yr wybodaeth ddiweddaraf am Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru, a nodwyd ganddi werth cadarnhaol cynnwys rhanddeiliaid yn y fforwm.

Eitem 6. Adroddiad perfformiad cyllid

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

19. Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid drosolwg o'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf. Cadarnhawyd bod y manylion yn yr adroddiad cyllid wedi'u trafod gyda'r Pwyllgor Cyllid. Tynnwyd sylw at y tanwariant net, ac roedd yn gysylltiedig â'r adnoddau ariannu a glustnodwyd. Tynnwyd sylw at y negeseuon allweddol, y risgiau, a'r cyfleoedd. Roedd y rhagdybiaethau gor-raglennu wedi'u gosod yn unol â hynny, a chadarnhawyd bod y tanwariant wedi digwydd mewn nifer o gyfarwyddiaethau. Tynnwyd sylw hefyd at y rhagolwg incwm a gwariant, a oedd yn cynnwys y prosiectau refeniw a chyfalaf, ac roedd ymarfer i nodi'r gwersi a ddysgwyd wedi'i gynnal.
20. Croesawodd y bwrdd yr adroddiad, a nodwyd yr heriau diweddar yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cytunwyd bod yr adroddiad yn adlewyrchu'n gadarnhaol, a bod y bwrdd yn awyddus i glywed pa wersi a ddysgwyd ar gyfer y rhaglenni dan sylw.
21. Cymeradwyodd y bwrdd y newid yn y rhagolwg diweddaraf o £294.6 miliwn i swm a ragwelwyd o £290.7 miliwn.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y bwrdd y newid yn y rhagolwg diweddaraf o £294.6 miliwn i swm a ragwelwyd o £290.7 miliwn.

Eitem 7. Cyflwyniad Lle

Cyflwynydd: Huwel Manley, Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru; Phil Morgan, Arweinydd y Tîm Rheoli Tir; Ellen Humphrey, Uwch-swyddog Gweithrediadau Coedwigoedd; Jen Day, Swyddog 2, Tîm yr Amgylchedd; Rhodri Morgan, Uwch-swyddog Rheoleiddio Diwydiant a Gwastraff; Caroline Drayton, Rheolwr Gweithrediadau

22. Cyflwynwyd yr eitem gan Gyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau.
23. Rhoddodd Swyddog 2, Tîm yr Amgylchedd, gyflwyniad ar y safleoedd dynodedig yn Sir Gaerfyrddin, a oedd yn cynnwys nodweddion safleoedd dynodedig safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig; tîrfeddianwyr safleoedd dynodedig; a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwernydd Pen-bre a'i heriau.
24. Bu'r bwrdd yn trafod y safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig a gyflwynwyd, a'r gwaith sy'n gysylltiedig â'u cynnal a'u cadw, megis y ceisiadau cynllunio, gwaith

gwirfoddol, ac archwilio'r safleoedd, gan ddefnyddio'r capasiti sydd ar gael o fewn y tîm.

25. Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Rheoli Tir effaith Storm Darragh ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn Ne-orllewin Cymru. Amlinellwyd yr ymateb cychwynnol a'i heriau. Tynnwyd sylw at y camau nesaf, y crynodeb, a'r rhagolwg.
26. Bu'r bwrdd yn trafod gallu CNC i adfer y coetir, yn dilyn effaith Storm Darragh. Awgrymwyd y gallai'r tîm adolygu a newid trefniadau'r contract i wrthbwysu'r colledion. Trafodwyd hefyd pa wersi a ddysgwyd yn dilyn amllder y stormydd a sut roeddent yn cael eu rhoi ar waith. Byddai adfer Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn Ne-orllewin Cymru yn cymryd tua phum mlynedd i'w gwblhau.
27. Rhoddodd Uwch-swyddog Rheoleiddio Diwydiant a Gwastraff gyflwyniad ar dîm Rheoleiddio Diwydiant De-orllewin Cymru. Roedd y diweddariad yn cynnwys: y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol a Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH) 2015; gwaith dur Port Talbot; Bae Abertawe; dyfrffordd Aberdaugleddau; heriau, llwyddiannau a chwynion ynghylch arogleuon Safle Tirlenwi Withy hedge.
28. Croesawyd y cyflwyniad gan y bwrdd. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw ddamweiniau, digwyddiadau, na digwyddiadau trwch blewyn wedi'u cofnodi'n ddiweddar ar Safle Tirlenwi Withy hedge. Bu'r bwrdd yn trafod sut y byddai'r tîm yn rhannu eu profiadau â'r meysydd eraill o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru.
29. Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd bod y Tîm Cyfathrebu yn olrhain yr ymgysylltiad ar wefannau cyfryngau cymdeithasol CNC, ac nad oedd mor negyddol ag y gallai rhai dybio. Nodwyd bod mwy o waith y gellid ei wneud mewn nifer o feysydd, ond bod cyfle i rannu'r gwaith cadarnhaol a wnaed gan CNC. Awgrymwyd y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru ddefnyddio unigolion nad ydynt yn rhan o'r cwmni, sydd hefyd wedi cael profiad cadarnhaol gyda'r sefydliad, i rannu eu storïau yn gyhoeddus.
30. Diolchodd y bwrdd i'r tîm am eu gwaith.

Eitem 8. Unrhyw fusnes arall

31. Ni thrafodwyd unrhyw fusnes arall.

Eitem 9. Sut wnaethon ni berfformio yn y cyfarfod hwn?

Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw, Cadeirydd

32. Croesawodd y bwrdd batrwm y cyfarfod a chytunodd ei fod wedi bod yn gyfarfod effeithiol. Diolchodd y bwrdd i'r timau a fu'n ymwneud â'r eitemau a gyflwynwyd. Awgrymwyd y byddai cyflwyniadau Lle yn dod yn rhan o bob cyfarfod bwrdd wyneb yn wyneb.

Daeth y cyfarfod i ben

Sesiwn holi ac ateb gyhoeddus

33. Cyflwynodd y cadeirydd y sesiwn holi ac ateb ar gyfer y cyhoedd.

34. Nid oedd unrhyw gwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

Daeth y cyfarfod cyhoeddus i ben

Papur Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru

Dyddiad y cyfarfod:	16 Gorffennaf 2025
Teitl y papur:	Adroddiad y Prif Weithredwr (Sesiwn Gyhoeddus)
Cyfeirnod y papur:	25-07-B08
Cyflwynwyd y papur gan:	Ceri Davies, Prif Weithredwr Dros Dro
Diben	Gwybodaeth a thrafodaeth
Crynodeb	Mae'r papur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am faterion cyfredol.

Cyflwyniad

- Wrth inni ymgartrefu yn y flwyddyn ariannol 2025/26, mae cyflymder y gwaith a wneir ar bob lefel o'r sefydliad yn parhau i fod yn gyson. Er gwaethaf heriau'r Achos dros Newid dros y 12 mis diwethaf, a'r swyddi gwag sy'n parhau heb eu llenwi mewn timau allweddol, mae'n cydweithwyr yn parhau i ddangos ymrwymiad ac egni rhagorol, ac yn gweithio'n rhagorol fel tîm, wrth ddarparu ein gwasanaethau rheng flaen a holl swyddogaethau hanfodol ein sefydliad. Mae'r Tîm Gweithredol a'r Tîm Arwain bellach yn canolbwyntio ar ymgorffori'r Achos dros Newid a sicrhau, fel sefydliad, ein bod yn addas ar gyfer y dyfodol, yn hyblyg yn y ffordd rydym yn gweithio, ac yn meddu ar yr adnoddau priodol i gyflawni amcanion ein cynllun corfforaethol. Rwy'n ddiolchgar i bawb am ganolbwyntio'n barhaus ar eu gwaith ac am eu hymroddiad parhaus.
- Mae'r hinon wedi arwain at gyfnod hir o dywydd sych ar draws pob dalgyllch yng Nghymru ers diwedd mis Mai. Roedd y glawiad dros y tri mis blaenorol yn llai na dwy ran o dair o'r lefel arferol ac arweiniodd y diffyg glawiad parhaus ym mis Mai at lefelau afonydd isel ledled Cymru. Mae lefelau dŵr daear hefyd yn eithriadol o isel, ac mae lefel y dŵr mewn cronfeydd yn gostwng. Mae ein timau digwyddiadau wedi bod yn barod i weithredu yn ystod y cyfnod hwn oherwydd y tebygolrwydd cynyddol o danau gwyllt a llifogydd sydyn. Ganol mis Mehefin, ystyriwyd bod rhai ardaloedd yn y De yn gwella, yn dilyn rhagor o law yn ystod y mis.
- Ddiwedd mis Mai, cefais gyfarfod ag Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, Lynda Warren. Roedd hyn yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys ail

adroddiad gwrychoedd yr asesydd a'i hymchwiliadau, sy'n mynd rhagddynt, i safleoedd gwarchodedig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig.

4. Cyfarfum hefyd â Syr Jon Cunliffe, sy'n arwain yr Adolygiad Annibynnol o'r Sector Dŵr, ynghylch adroddiad interim y comisiwn, a gyhoeddwyd ddechrau mis Mehefin. Mae'r adroddiad yn nodi casgliadau rhagarweiniol mewn pum maes allweddol, gan gwmpasu'r angen am drywydd strategol cyson ar gyfer y sector dŵr, fframwaith deddfwriaethol symlach sydd â mwy o ffocws, a dull cryfach, ond mwy goruchwyliol, o reoleiddio cwmnïau dŵr. Mae'n grynodeb trylwyr iawn o'r ymgynghoriad, yr ydym wedi cyfrannu ato, ac rydym yn falch o nodi'r gydnabyddiaeth glir o'r gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr. Mae adroddiad terfynol y comisiwn i fod i gael ei gyhoeddi yn yr haf, ac rydym yn parhau i gyfarfod ag uwch-dîm adolygu Syr John Cunliffe i ddylanwadu ar y canlyniadau i Gymru yn y ddogfen derfynol.
5. Ddechrau mis Mehefin, euthum i dderbyniad croesawu Sefydliad Cadwraeth yr Eog (NASCO), ac ymunais â chynrychiolwyr ar drip maes a gynhaliwyd gan CNC i Fae Caerdydd ac afon Taf. Daeth y digwyddiad â chynrychiolwyr rhyngwladol i'r Deddwyrain, gan ganiatáu inni arddangos y gwaith yr ydym yn ei wneud i wella amodau afonydd a chefnogi cadwraeth yr eog. Diolchaf i'm cydweithwyr a chwaraeodd ran mewn dod â'r 42ain gyfarfod blynyddol i Gymru, cynnal y teithiau maes, a chynrychioli Cyfoeth Naturiol Cymru gydag angerdd a phroffesiynoldeb. Mae rhagor o wybodaeth am y digwyddiad wedi'i chynnwys yn yr adroddiad isod.
6. Treuliodd y Tîm Gweithredol a minnau brynhawn addysgiadol a chynhyrchiol gyda thîm gweithredol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn eu heiddo hardd, Tŷ Tredegar, yng Nghasnewydd. Roedd y sesiwn hon yn gyfle inni gryfhau ein perthynas, sicrhau bod ein cynlluniau strategol yn cyd-fynd â'i gilydd, a nodi ffyrdd o gydweithio'n agosach, ac yn fwy effeithiol, er mwyn cyflawni mwy i Gymru. Cefais sgwrs ar wahân â Lhosa Daly, Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, yn ddiweddarach yn y mis. Pan fuom yn yr Alban ym mis Mehefin, achubais i a Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau, ar y cyfle i gyfarfod â Philip Long, Prif Swyddog Gweithredol National Trust Scotland, a bydd cyfarfodydd dilynol rhyngom ynghylch canlyniadau cyffredin o ran rheoli a chadwraeth tir.
7. Mynychais ein cyfarfod Cyngor Partneriaeth â chynrychiolwyr yr undebau llafur ym mis Mehefin. Roedd yr agenda'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am ein cyllideb, y Bil Hawliau Cyflogaeth, gwaith i ymgorffori'r Achos dros Newid, a chynigion i wella cynrychiolaeth yr undebau llafur ar lefel y Bwrdd. Cadeiriais ein Pwyllgor Llesiant, Iechyd a Diogelwch misol hefyd. Rwy'n falch o allu adrodd bod gan y Tîm Gweithredol berthynas waith gadarnhaol iawn gyda'n partneriaid yn yr undebau llafur. Fe wnaethom alluogi'r cyntaf o'r hyn a fydd yn drafodaethau rheolaidd rhwng ein harweinwyr undeb llafur a'n bwrdd trwy'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid. Bydd y sesiwn hon yn caniatáu i gadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid gael sicrwydd ynghylch materion ynghylch cysylltu â'r undebau.
8. Cefais fy sgwrs chwarterol â Matthew Edwards o Archwilio Cymru yn ystod mis Mehefin. Fel swyddog cyfrifyddu cymharol newydd, rwy'n parhau i fod yn ddiolchgar

am gymorth a chyfarwyddyd Archwilio Cymru wrth inni gwblhau ein hadroddiad blynyddol a'n cyfrifon ar gyfer 2024/25.

Ddiwedd mis Mehefin, aeth Gareth O'Shea a minnau i gyfarfod rhwng pum asiantaeth gyda chydweithwyr uwch o Asiantaeth yr Amgylchedd, Asiantaeth Diogelu Amgylcheddol yr Alban (SEPA), Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon ac Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd Iwerddon. Cynhaliwyd y cyfarfod gan SEPA yng Nghaeredin, ac roedd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf gan y pedwar sefydliad, ac yna sesiynau trafod ar bynciau fel cyfleoedd deallusrwydd artifisial, adnoddau a datblygu sgiliau, a thueddiadau mewn cyfraith achosion, apeliadau ac adolygiadau barnwrol. Arweiniodd CNC sesiwn ar ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio, ac arweiniodd drafodaeth ar y cyd ar safleoedd tirlenwi a darpariaeth ariannol. Fel bob amser, roedd y cyfarfod yn fforwm gwerthfawr ar gyfer rhannu syniadau a chydweithio ar heriau a chyfleoedd cyffredin.

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ar amrywiaeth o faterion. Mae ein cyfarfodydd nawdd rheolaidd yn canolbwyntio ar berfformiad, cynllunio a chyflawni busnes, a materion amserol fel yr Adolygiad Annibynnol o'r Sector Dŵr a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae'r eitem olaf hon yn faes sy'n cael ei ddatblygu, gan adeiladu ar gynllun wedi'i ddiweddarau gan Lywodraeth Cymru a ryddhawyd y llynedd sy'n canolbwyntio mwy pendant ar gyflawni, ac ymrwymiad newydd i wneud Cymru yn genedl wrth-hiliol erbyn 2030. Mae nodau a chanlyniadau penodol ar gyfer sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys cyflwyno amcanion gwrth-hiliol clir, wedi'u cefnogi gan hyfforddiant, ar gyfer uwch-arweinwyr y sector cyhoeddus. Rydym yn cefnogi'n llwyr amcanion Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, ac wedi ymrwymo i gyflawni'r safonau uchel a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn hyn o beth. Rydym wrthi'n sefydlu rhwydwaith cydweithwyr ar wrth-hiliaeth i'n helpu i sicrhau amrywiaeth yn CNC, a bydd Dominic Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, yn gweithredu fel hyrwyddwr y Tîm Gweithredol. Rwyf wedi cyfarfod â Chyfarwyddwr Cymunedau a Chyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ac wedi sicrhau cymorth parhaus oddi wrtho.

9. Roedd y cynllun hwn hefyd ar agenda Cyfarfod Prif Weithredwyr Cyrff Cyhoeddus ym mis Mehefin. Mae'r cyfarfod hwn yn cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru ac mae'n caniatáu i uwch-arweinwyr gysylltu'n rheolaidd a gweithio gyda'i gilydd ar flaenoriaethau'r llywodraeth – fel yr ymarfer Dyfodol, sy'n edrych ar rôl a datblygu Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru yn yr hirdymor (hyd at 2100).
10. Rydym wedi ymateb yn ffurfiol i adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd, yn dilyn ein sesiwn graffu flynyddol ym mis Mawrth. Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion cynhyrchol ar draws ein cylch gwaith, yr ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n unigol ac yn parhau i ganolbwyntio arnynt. Rydym wedi diolch i'r pwyllgor am eu diddordeb parhaus yn ein gwaith a'u cymorth iddo ac yn gwerthfawrogi eu rôl yn fawr wrth ddwyn CNC i gyfrif.

11. Mae'r broses recriwtio yn parhau, gyda swyddi gwag yn cael eu hysbysebu'n fewnol ac yn allanol ar gyfer y mwyafrif o'r rolau. Mae ein tîm recriwtio wedi bod yn gweithio'n galed i hysbysebu swyddi gwag a chefnogi rheolwyr llinell yn ystod y broses recriwtio. Ar lefel y Tîm Arwain, bu nifer o staff yn symud rhwng rolau i gyflenwi yn sgil staff sydd wedi ymadael, ac mae hynny wedi cynnig cyfleoedd i gydweithwyr ddatblygu. Mae Sarah Stacey, Pennaeth Datblygu Pobl a Llesiant, wedi ein gadael, a bydd y rôl yn cael ei llenwi dros dro gan Nadia De Longhi, sydd ar hyn o bryd yn Bennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu. Yn yr un modd, bydd Lyndsey Rawlinson, Pennaeth Gweithrediadau'r Gogledd-ddwyrain, yn ymgymryd â rôl Pennaeth Stiwardiaeth Tir, tra bydd Jon Goldsworthy – sy'n arwain prosiect Dalgylch Arddangos Teifi ar hyn o bryd – yn dod yn Bennaeth Prosiectau Strategol pan fydd Christian Wilcox yn ein gadael ym mis Gorffennaf. Diolchaf yn fawr iawn i Sarah a Christian am eu hegri, eu cyfraniadau a'u harweinyddiaeth yn ystod eu hamser gydag CNC.
12. Rydym hefyd wedi llenwi rôl Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth gyda phenodiad allanol, a fydd yn ymuno â ni yn ystod mis Gorffennaf. Diolch i Steve King, sydd wedi bod yn cyflenwi'r rôl hon dros dro.
13. Roeddwn i wrth fy modd yn cydnabod tri chyn-gydweithiwr ar restr Anrhydeddau Pen-blwydd y Brenin yn ystod mis Mehefin. Dyfarnwyd MBE (Aelod o Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig) i Peter Stanley am wasanaethau rhagorol i'r gwyddorau daearyddol a mwyngloddiau metel. Cafodd Peter wybod am yr anrhydedd cyn ei farwolaeth ym mis Mehefin, ac roedd wedi'i gyffwrdd i'r byw i gael ei gydnabod fel hyn. Bydd ei wobwr yn cael ei chyflwyno i'w wraig ar ei ran. Dyfarnwyd MBE i Simon Bareham am wasanaethau i ddiogelu ansawdd aer a bioamrywiaeth yng Nghymru, tra bod Alan Hubbuck wedi cael Medal yr Ymerodraeth Brydeinig (BEM) am wasanaethau i goedwigaeth broffesiynol. Mae'r anrhydeddau hyn yn haeddiannol iawn.

Materion strategol

Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

14. Gwnaed y Bil ar gael i'r cyhoedd ddechrau mis Mehefin. Mae'r Bil drafft newydd yn ymdrin ag egwyddorion amgylcheddol a llywodraethiant yng Nghymru, ac yn gosod targedau bioamrywiaeth statudol fel rhan o gyflawni ymrwymadau cenedlaethol Cymru ac ymrwymadau'r wlad o dan y Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang. Ei nod yw cryfhau fframwaith llywodraethu amgylcheddol Cymru yn sgil Brexit a sicrhau bod ymdrechion i ddiogelu'r amgylchedd yn cael eu hymgorffori ar draws maes polisi.
15. Nod pellach y Bil yw adfer hyder y cyhoedd mewn atebolrwydd amgylcheddol a sicrhau bod mecanweithiau gorfodi yn gadarn, yn dryloyw ac wedi'u datganoli. Mae tair cydran graidd, y cyntaf ohonynt yn gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i roi sylw arbennig i egwyddorion amgylcheddol

cydnabyddedig (yr egwyddor ragofalus, yr egwyddor ataliol, yr egwyddor cywiro yn y ffynhonnell, a'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu) wrth lunio polisi. Rhaid ymgorffori'r egwyddorion i'r broses o lunio polisiâu, gan ganolbwyntio ar gyflawni lefelau uchel o ddiogelwch amgylcheddol.

16. Yr ail gydran graidd yw sefydlu corff llywodraethu annibynnol i oruchwyllo cydymffurfedd amgylcheddol. Bydd y corff goruchwyllo newydd hwn yn cael ei sefydlu i fynd i'r afael â'r bwlch llywodraethu ar ôl gadael yr UE a darparu goruchwyliaeth strategol ac annibynnol o effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol, a'r ffordd y mae'n cael ei chymhwyso a'i gweithredu, gan gynnwys unrhyw fethiannau gan awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio â'r cyfreithiau hynny. Rydym yn croesawu cyflwyniad y corff newydd, a byddwn yn gweithio gydag ef er mwyn sicrhau nad oes unrhyw orgyffwrdd o ran ei rôl.
17. Y drydedd gydran yw creu fframwaith bioamrywiaeth statudol a thargedau bioamrywiaeth. Mae'r Bil drafft yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gyflwyno'r fframwaith newydd hwn, a bydd gan Weinidogion ddyletswydd i osod o leiaf un targed ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau canlynol:
 - Lleihau'r risg o ddifodiant rhywogaethau brodorol
 - Rheoli ecosystemau yn effeithiol
 - Lleihau llygredd
 - Tystiolaeth i lywio penderfyniadau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, mynediad at y dystiolaeth honno, a'r defnydd a'r cymhwysiad ohoni

Bydd angen cyflwyno'r targedau statudol drafft o fewn tair blynedd o gael Cydsyniad Brenhinol.

18. Bydd gan Weinidogion Cymru ddyletswyddau ychwanegol i wella cynllunio ac adrodd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ynghylch gweithredu o ran bioamrywiaeth, monitro bioamrywiaeth ac adrodd ar gynnydd (gan gynnwys gosod dangosyddion), ac asesu effaith polisi neu weithredu. Bydd ganddynt y pŵer i ddynodi awdurdodau cyhoeddus a'u gorfodi i gyfrannu at gyflawni'r targedau y maent wedi'u dynodi ar eu cyfer. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd camau i hyrwyddo ymwybyddiaeth yng Nghymru o bwysigrwydd bioamrywiaeth a'r bygythiadau y mae'n eu hwynebu.
19. Mae CNC yn cefnogi Llywodraeth Cymru yn weithredol gyda'i gwaith o ddatblygu targedau, yn uniongyrchol, a chyda phobl eraill drwy Banel Cyngori Annibynnol ar Dargedau Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru. Hyd yn hyn, rydym wedi ailgyfeirio adnoddau presennol i weithio ar hyn. Fodd bynnag, byddwn yn cadw hyn dan adolygiad gyda Llywodraeth Cymru oherwydd, wrth i oblygiadau gweithredol y Bil ddod yn fwyfwy clir, efallai y byddwn yn nodi anghenion newydd o ran adnoddau sy'n barhaol neu'n gyfyngedig o ran amser.

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Natur

20. Mae'r trydydd asesiad o reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy yng Nghymru (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Natur 2025) i fod i gael ei gyhoeddi erbyn 31 Rhagfyr 2025. Mae'r asesiad yn cwmpasu pedwar nod:
 - Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella
 - Mae'r ecosystemau yn gallu gwrthsefyll newid disgwylidig ac anrhagweledig
 - Mae gan Gymru leoedd iach ar gyfer pobl sydd wedi'u diogelu rhag peryglon amgylcheddol
 - Cyfrannu at economi adfywiol, a chyflawni lefelau cynhyrchu a defnydd cynaliadwy
21. Rydym wedi casglu ac wedi adolygu'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad. Rydym yn drafftio'r asesiadau yn erbyn y pedwar nod ar gyfer ecosystemau ac adnoddau naturiol, ac yn nodi'r negeseuon allweddol ar lefel ecosystemau ac adnoddau naturiol, a fydd yn cael eu defnyddio yn ein dogfennau cyfathrebu, a'n negeseuon a blaenoriaethau allweddol Cymru gyfan.
22. Bydd mynediad at yr asesiadau, drwy wefan Cyfoeth Naturiol Cymru, mewn un ddogfen. Bydd y dystiolaeth sylfaenol hefyd ar gael trwy adroddiad rhyngweithiol ar ein gwefan, a gobeithio y bydd yn mynd i'r afael ag adborth ar ddefnyddioldeb yn dilyn cyhoeddi Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Natur 2020. Rydym wedi profi'r fformat dystiolaeth newydd gyda defnyddwyr, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.
23. Rydym yn bwriadu rhannu ein penawdau sy'n dod i'r amlwg, a sut olwg fydd arnynt, â'r Bwrdd yn ystod mis Medi, trwy weminar. Yn dilyn hyn, byddwn hefyd yn rhannu papur â'r Bwrdd ym mis Hydref, yn nodi ein canfyddiadau allweddol a'n cynllun cyfathrebu. Byddwn yn gofyn i'r Bwrdd gymeradwyo Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Natur 2025 ddiwedd mis Tachwedd.

Materion gweithredol

Cyllid i fynd i'r afael â heriau ecolegol yng Ngwent

24. Mae Cronfa Rhwydweithiau Natur wedi dyfarnu grant o £250,000 i Gyngor Blaenau Gwent, gan weithio mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru a Grid Gwyrdd Gwent, i fagu ein dealltwriaeth o ble mae angen inni adeiladu ecosystemau cadarn ledled Gwent a chynyddu gwerth ecosystemau a'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu i bobl a natur. Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd y prosiect yn gweithio ledled Gwent i gydlunio rhwydweithiau o gynefinoedd mewn cyflwr ecolegol da, gan gysylltu safleoedd a ddiogelir a llecynnau cyfoethog o ran bioamrywiaeth eraill ar draws ein tirweddau ar raddfa ranbarthol.
25. Mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar ddull rhwydweithiau ecolegol cadarn Gwastadeddau Gwent ac yn dilyn canllawiau ymarferwyr CNC ar rwydweithiau ecolegol cadarn. Mae'n cyfrannu at ein hymdrechion ar y cyd i gymryd camau brys i

atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, gan ddefnyddio dull atebion ar sail natur mewn perthynas â newid hinsawdd a llygredd, a darparu buddion iechyd a llesiant mewn ffordd deg a chynhwysol yng Ngwent.

Prosiect Adfer Afonydd De-ddwyrain Cymru

26. Mae Prosiect Adfer Afonydd De-ddwyrain Cymru, a ariannwyd dros bum mlynedd gan Lywodraeth Cymru, bellach yn ei ail flwyddyn ac yn gweithredu strategaeth rheoli dalgylch integredig i adfer ecosystemau afonydd a gorlifdiroedd afon Ebwy, afon Rhymni ac afon Sirhywi, mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid. Mae'r prosiect yn cyflwyno sawl ymyriad ar sail natur, gan gynnwys creu gwlyptiroedd yn Llanrhymni, gwella ansawdd cynefinoedd torlannol yn afon Ebwy ac afon Rhymni, a mapio a rheoli rhywogaethau estron goresgynnol.
27. Rydym hefyd yn datblygu fframwaith monitro a gwerthuso er mwyn sicrhau bod tystiolaeth o'r pwysau sy'n effeithio ar ein dalgylchoedd yn cael ei defnyddio i flaenoriaethu a thargedu atebion ar sail natur. Mae'r prosiect hwn yn cyfrannu at feithrin gwydnwch yn erbyn bygythiadau fel newid yn yr hinsawdd a llygredd, yn ogystal â magu'n dealltwriaeth o werth ein hecosystemau a'r buddion maen nhw'n eu darparu o ran llesiant.

Taclo Tipio Cymru

28. Mae Taclo Tipio Cymru wedi sicrhau cyllid i barhau â'r rhaglen, a fydd bellach yn cael ei gynnwys yn ein setliad cymorth grant. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi cytuno ar y cyllid yn seiliedig ar ein cynllun gwaith newydd ar gyfer 2025/26, a'r adroddiad rhaglen annibynnol, a gynhyrchwyd yn ddiweddar, a ddangosodd waith rhagorol y rhaglen dros y blynyddoedd diwethaf.
29. Mae mesurau cyflawni allweddol yn cael eu hychwanegu at y cynllun gwasanaeth rheoleiddio a'r cynllun busnes, a fydd ill dau yn cael eu defnyddio i fonitro'r hyn sydd wedi'i gyflawni o dan y trefniant ariannu newydd hwn. Mae cynllun gwaith newydd Taclo Tipio Cymru yn canolbwyntio ar weithgorau rhanddeiliaid rhanbarthol, gwaith ymgyrchu cenedlaethol, rhoi rhagor o gymorth i'n rhanddeiliaid wrth orfodi, a datblygu ymhellach ein gallu i gymryd camau gorfodi yn erbyn tipio anghyfreithlon ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.

Tŷ Llwyd

30. Mae Tŷ Llwyd yn hen chwarel a ddefnyddir i waredu gwastraff diwydiannol yng Nghaerffili. Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sy'n gyfrifol am y safle ac, yn ddiweddar, maent wedi cydymffurfio â hysbysiad gwaith gwrth-lygredd a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, gan ddefnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith gwella a wnaed i leihau'r perygl o ryddhau trwytholch.
31. Mewn cyfarfod diweddar rhwng Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, Cyngor Caerffili a ninnau, ystyriwyd y potensial ar gyfer defnyddio'r problemau yn

Nhŷ Llwyd fel astudiaeth achos, gan edrych ar effeithiolrwydd y fframwaith rheoleiddio presennol, nodi gwelliannau posibl ac effeithiolrwydd cydweithio rhwng partneriaid, a nodi unrhyw ddiffygion yn y ddeddfwriaeth bresennol. Ar y cyfan, cydnabu'r asesydd fod partneriaid wedi bod yn cydweithio'n dda ar y safle hwn. Rydym nawr yn aros am y fersiwn derfynol o'r asesiad o dir halogedig gan Gyngor Caerffili, a fydd yn llywio'r camau nesaf ymhellach.

Gyrfa Goedwig Cwm-carn

32. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gydag Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i archwilio diddordeb trydydd partiön mewn gweithredu Gyrfa Goedwig Cwm-carn a'r ganolfan ymwelwyr. Cymeradwywyd y cais am gynnig ar 10 Mehefin, a byddwn yn mynd i'r farchnad yn ystod mis Mehefin ar Gwerthwchi Gymru, ac yn gweithio gyda'n hasiant er mwyn sicrhau datblygwr ar gyfer y safle.
33. Mae gan y cais am gynnig brydles ddrafft gan CNC a Chyngor Caerffili. Mae'r broses yn gwahodd datblygwyr posibl i gyflwyno cynllun busnes, sy'n eithaf rhagnodol o ran yr hyn yr hoffem ei weld. Yr adran sy'n sgorio uchaf yn y cynllun hwn yw eu dyhead hirdymor ar gyfer y safle, a sut maen nhw'n bwriadu gweithio mewn partneriaeth gyda ni, Cyngor Caerffili, y gymuned a grwpiau fel Risca Riders i wella'r hyn y mae Gyrfa Goedwig Cwm-carn yn ei gynnig ymhellach.
34. Y dyddiad cau i gynigwyr yw 29 Awst. Wedi hynny, gwahoddir y pum cynnig sy'n sgorio orau i roi cyflwyniad ar eu cynllun busnes, ac unrhyw welliannau posibl i'r prydles drafft, a chael cyfweiliad ynghylch hyn hefyd. Bydd y broses hon yn cael ei harwain gan y tîm uwch-arweinwyr yng Nghyngor Caerffili a phenaethiaid gwasanaeth o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru. Yna bydd gan ddatblygwyr gyfnod pellach i fireinio eu cynnig terfynol. Disgwylir i'r broses ddod i ben yn wythnos gyntaf mis Tachwedd.

Yr wybodaeth ddiweddaraf am Deras Clydach

35. Mae Teras Clydach, Ynys-y-bwl, ar y gorlifdir naturiol mewn rhan gyfyngedig o Gwm Clydach. Yn hanesyddol, mae wedi dioddef o lifogydd difrifol, a'r fwyaf nodedig o'r rhain oedd yn ystod Storm Dennis ym mis Chwefror 2020, pan orlifodd llifddwr o Nant Clydach dros wal y briffordd sy'n mynd ar hyd y teras, gan achosi dŵr i lifo i mewn i un ar bymtheg o dai. Roedd y llifogydd yn hynod beryglus, ac roedd dyfnder y dŵr y tu mewn i'r tai isaf dros chwe throedfedd. Roedd adroddiadau gan drigolion yn dilyn Storm Dennis hefyd yn dangos bod y stryd wedi'i heffeithio gan y llifogydd yn gyflym iawn (llifoedd a chyfradd codi) ac, oherwydd hyn, nid oedd digon o amser iddynt ymateb.
36. Oherwydd y dalgylch bach iawn, a'r ffaith ei fod yn rhan uchaf y dalgylch, nid oes gan Ynys-y-bwl wasanaeth rhybuddio am lifogydd pwrpasol. Am resymau technegol, byddai'n anodd iawn darparu unrhyw wasanaeth rhybuddio am lifogydd dibynadwy i'r ardal. Ers 2023, rydym wedi bod yn gweithio ar achos busnes amlinellol i benderfynu a yw datrysiad peirianyddol i'r perygl o lifogydd yn hyfyw.

Mae'r achos busnes amlinell bron wedi'i gwblhau, ac anfonwyd drafft at swyddogion Llywodraeth Cymru, a chafwyd trafodaeth amdano â nhw, ddechrau mis Ebrill. Dim ond dau opsiwn y gellir eu datblygu i'r cam nesaf: mur llifogydd neu orchymyn prynu gorfodol. Byddai angen i'r mur fod dros bedwar metr o uchder, a byddai'n heriol o safbwynt peiriannu. Mae'r ddau opsiwn yn ddrud.

37. Anfonwyd yr achos busnes amlinellol terfynol at Lywodraeth Cymru yn ffurfiol yn ystod mis Mehefin, a chafodd ei rannu â'r trigolion yn fuan wedyn. Fe wnaethon ni gyfarfod â thrigolion ym mis Mai, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ar ganlyniadau tebygol yr achos busnes amlinellol. Bydd cyfarfod amlasiantaeth yn cael ei gynnal ar 10 Gorffennaf a fydd yn canolbwyntio ar Deras Clydach. Yn ystod y cyfarfod hwn, byddwn yn trafod y cynllun ymateb brys i lifogydd diweddaraf yr ydym wedi bod yn gweithio arno gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf, Heddlu De Cymru, a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Parc Dŵr Llynnoedd Cosmeston

38. Mae'r parc dŵr sydd fel arfer ym Mae Caerdydd bob haf wedi symud i Llynnoedd Cosmeston yr haf hwn, mewn ymateb i ansawdd dŵr gwael sy'n effeithio ar weithrediadau yn y Bae. Cyflwynodd Cyngor Bro Morgannwg hysbysiad o fwriad i CNC ar gyfer gosod parc dŵr yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Llynnoedd Cosmeston, ac rydym wedi rhoi caniatâd ar ei gyfer. Rydym yn parhau i gael gohebiaeth ac ymholiadau ynglŷn â symud y parc i Llynnoedd Cosmeston, gyda phryderon yn ymwneud ag ansawdd dŵr, diogelwch, a'r effaith ar fywyd gwyllt / nodweddion y SoDdGA.

Gwaith digwyddiadau llygredd

39. O fis Gorffennaf eleni, rydym yn gwneud newid pwysig i'r ffordd rydym yn ymateb i ddigwyddiadau llygredd bach eu heffaith. Mae'r newid hwn wedi'i gynllunio i'n helpu i flaenoriaethu ein hadnoddau lle mae eu hangen fwyaf drwy ymateb i ddigwyddiadau sy'n achosi'r niwed mwyaf a buddsoddi mwy o amser mewn gwaith rhagweithiol, ataliol a rheoleiddiol sy'n darparu manteision amgylcheddol hirdymor.
40. Mae tystiolaeth yn dangos bod tua 95% o'r digwyddiadau yr ydym yn ymateb iddynt yn arwain at ychydig iawn o effaith, neu ddim effaith o gwbl, ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, maent yn dal i dreulio cyfran sylweddol o'n hamser a'n hadnoddau, sy'n cyfyngu ar ein gallu i wneud gwaith cydymffurfedd ac atal llygredd a allai atal llygredd cyn iddo ddigwydd.
41. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu digwyddiadau sy'n effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, rydym bellach yn gofyn i swyddogion fabwysiadu dull mwy cymesur, sy'n seiliedig ar risg, gan ganolbwyntio ein hymdrech lle bydd ein cyfranogiad yn darparu'r budd mwyaf. Ar gyfer rhai digwyddiadau lefel isel, bach eu heffaith, gall hyn olygu nad ydynt yn cael ymateb ar unwaith nac ymyrraeth uniongyrchol. Yn yr achosion hyn, efallai y byddwn yn dewis mynd i'r afael â'r problemau sylfaenol drwy weithgarwch rheoleiddio arferol, gorfodi, neu waith atal

llygredd drwy geisio mynd i'r afael ag achosion sylfaenol llygredd yn hytrach na symptomau.

Yr wybodaeth ddiweddaraf am Kronospan

42. Mae tîm Rheoleiddio Diwydiant y Gogledd yn parhau i gael adroddiadau am ddigwyddiadau, a gohebiaeth gysylltiedig, yn ymwneud ag arogleuon a llwch o safle Kronospan yn y Waun. Adroddwyd am brosesu pren ac arogleuon cemegol, sydd wedi'u cysylltu ag allyriadau o'r simnai yn disgyn i lefel y ddaear. Mae allyriadau o brosesau Kronospan yn cael eu monitro, ac mae'n rhaid iddynt fodloni'r gwerthoedd terfyn ar gyfer allyriadau a nodir yn eu trwydded. Mae rhai allyriadau yn aroglus, ac mae Kronospan wedi cwblhau gwaith i fesur yr arogleuon o'r prosesau amrywiol, a'u deall. Maent yn treialu dull i leihau arogleuon a allai, os yw'n llwyddiannus, gael ei ddefnyddio'n ehangach.
43. Yn dilyn llond trol o adroddiadau am ddigwyddiadau llwch, cwblhaodd swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru archwiliad dirybudd, gan nodi methiant i gydymffurfio â thrwyddedau ynghylch rheoli llwch ar yr iard goed, gan arwain at gyhoeddi rhybudd. Ar hyn o bryd, mae Kronospan yn treialu gwahanol unedau atal dŵr y gellir eu defnyddio wrth ddadlwytho pren sydd wedi'i ailgylchu, ac yn ymchwilio i opsiynau pellach ar gyfer atal unrhyw lwch rhag cael ei ryddhau yn ystod y broses ddadlwytho.
44. Rydym wedi sefydlu gwefan bwrpasol lle gall CNC a Kronospan gyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf ac atebion i gwestiynau cyffredin.

Safle Tirlenwi'r Hafod

45. Rydym yn parhau i fonitro cynnydd yn Safle Tirlenwi'r Hafod yn agos, gan gynnwys cynnal archwiliadau dirybudd. Diolch i waith gwella gan weithredwr y safle, bu gostyngiad cyson yn nifer y cwynion y ceir am arogleuon, er ein bod yn cydnabod bod rhai pobl yn parhau i gael eu heffeithio.
46. Yn ystod y misoedd diwethaf, rydym wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Dirprwy Brif Weinidog a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am ein gwaith rheoleiddio. Rydym hefyd wedi cymryd rhan yng nghyfarfod cyntaf grŵp rhanddeiliaid Safle Tirlenwi'r Hafod, ac wedi mynd i Bwyllgor Craffu ar Gartrefi a'r Amgylchedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ym mis Ebrill.
47. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddwyn gweithredwr y safle i gyfrif, a sicrhau bod camau'n cael eu cymryd pan fo angen. Mae gwelliannau pellach yn yr arfaeth, gan gynnwys gwella'r prosesau echdynnu nwy a rheoli trwytholchion. Mae data ansawdd aer rhagarweiniol o unedau monitro a sefydlwyd gan Gyngor Wrecsam a gweithredwr y safle yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Dengys y canfyddiadau cynnar yr aethpwyd dros drothwyon annifyrrwch arogleuon cydnabyddedig ar adegau, ond mae angen gwneud rhagor o waith i ddeall yr achosion.

Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog

48. Newidiodd Deddf Dŵr 2003, a gafodd ei deddfu ym mis Ionawr 2018, y ffordd y gall camlesi dynnu dŵr o afonydd, er na wnaeth atal tynnu dŵr. Rhoddwyd dwy flynedd i awdurdodau mordwyo a oedd wedi'u hesemptio rhag gorfod cael trwyddedau tynnu dŵr gyflwyno ceisiadau. Cyflwynodd Glandŵr Cymru geisiadau ar gyfer Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog, a rhoddodd CNC y trwyddedau tynnu dŵr gydag amodau a gynlluniwyd i amddiffyn cyfanrwydd ecolegol Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Wysg ac Aber Afon Hafren. Mae'r trwyddedau'n cynnwys tabl sy'n nodi'r gwahanol gyfeintiau o ddŵr y gellir eu tynnu yn ôl llif afon Wysg.
49. Ym mis Ionawr 2023, apeliodd Glandŵr Cymru i Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru yn erbyn dau amod penodol mewn dau o'r trwyddedau, gan eu hatal nes cyrraedd penderfyniad. Yn dilyn gwrandawriad, gwrthodwyd yr apelïadau gan Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru ym mis Tachwedd y llynedd, gan gadarnhau bod yr amodau'n angenrheidiol i amddiffyn cyfanrwydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Wysg ac Aber Afon Hafren, a'u rhoi ar waith.
50. Er mwyn cynnal lefelau dŵr yn y gamlas yn ystod cyfnodau sych, yn absenoldeb unrhyw ddewis ymarferol arall ar hyn o bryd, mae Glandŵr Cymru yn defnyddio dŵr a dynnir o dan drwydded gan Dŵr Cymru, pan fydd y llifoedd yn caniatáu hyn. Bydd adegau (ar lif isel) pan na fydd Dŵr Cymru yn gallu caniatáu hyn, ond pan fyddant yn gwneud hynny, bydd angen codi tâl ar Glandŵr Cymru ar y gyfradd fasnachol. Mae Glandŵr Cymru wedi nodi ei bod hi'n debygol na fydd hyn yn fforddiadwy iddyn nhw, ac wedi ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog ynglŷn â'r sefyllfa, gan gynghori bod dyfodol y gamlas mewn amheuaeth ddifrifol.
51. Yng ngoleuni diddordeb sylweddol gan gynrychiolwyr gwleidyddol, cynghorwyr lleol, y cyfryngau a rhanddeiliaid eraill, rydym wedi ceisio sicrhau dealltwriaeth o gyddestun y newidiadau hyn a'n rôl a'n cylch gwaith yn y mater. Nid ydym yn rhan o unrhyw drefniadau masnachol posibl ar gyfer darparu cyflenwadau dŵr amgen ar gyfer y gamlas nac wrth bennu'r gost gysylltiedig, gan mai materion i Glandŵr Cymru a Dŵr Cymru yw'r rhain. Fodd bynnag, rydym wedi gweithio'n galed gyda Glandŵr Cymru, a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys Dŵr Cymru, i hwyluso datrysiad amgylcheddol drwy gydol y cyfnod ers i oblygiadau'r newidiadau deddfwriaethol gael eu nodi dros ddegawd yn ôl. Mae rheoleiddio tynnu dŵr yn gymhleth a rhaid iddo fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Ein blaenoriaeth erioed fu amddiffyn cyfanrwydd ecolegol ACA Afon Wysg ac ACA Aber Afon Hafren, a sicrhau bod unrhyw gweithgarwch tynnu dŵr yn gynaliadwy yn amgylcheddol.
52. Er ein bod yn cydnabod ein rôl reoleiddio, rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i gydweithio â Glandŵr Cymru, gan ymgysylltu ar lefel uwch a chyda'r grŵp technegol a gynullwyd ganddynt er mwyn helpu i lywio unrhyw atebion posibl i reoli echdynnu dŵr mewn ffordd sy'n cefnogi iechyd a chydnerthedd hirdymor yr afon.

Cilfach Tywyn

53. Ar 15 Mehefin, daeth Gorchymyn Rheoleiddio Cocos Cilfach Tywyn i ben. Roedd y gorchymyn hwn wedi gweithredu am gyfnod o chwe deg mlynedd. Mae wedi bod yn heriol ar adegau oherwydd lefelau marwolaethau cocos – canfuwyd yn y pen draw mai llwytho parasitiaid oedd y rheswm at ei gilydd – rheoli gofynion profi'r trwyddedeion, a gorfodi yn erbyn potswyr. Hyd yn oed yn y dyddiau olaf, cynhaliodd ein tîm gorfodi wyladwriaeth reolaidd, gan ddal pedwar potsiwr mewn ymgyrch gorfodi amlasiantaeth lwyddiannus dan arweiniad ein tîm yn y De-orllewin.
54. Y llynedd, dyfarnwyd gwobr stiwardiaeth y Cyngor Stiwardiaeth Forol i'r bysgodfa, ac mae wedi cael ei hachredu'n gyson fel pysgodfa gynaliadwy. Mae'r stociau cocos yn dychwelyd i lefelau poblogaeth a dosbarth oedran arferol, ac mae'r bysgodfa mewn cyflwr llawer gwell. Mae Cilfach Tywyn bellach yn bysgodfa gyhoeddus, wedi'i rheoli gan Lywodraeth Cymru, ac rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda nhw wrth inni drosglwyddo'r awenau iddynt.

Atebion ar sail natur a rheoleiddio

55. Gall atebion ar sail natur fynd i'r afael â materion amgylcheddol fel newid yn yr hinsawdd, llifogydd, ansawdd dŵr a rheoli arfordiroedd. Mae gweithio gyda natur yn creu bioamrywiaeth, yn gallu storio carbon, ac yn dod â llawer o fuddion i amwynderau cyhoeddus. Er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd hyn, rydym yn annog cynllunio a rheoli dalgylchoedd integredig, gan ddod o hyd i atebion i adfer natur, llifogydd ac ansawdd dŵr trwy weithio gyda natur. Rydym hefyd yn annog cynllunio a datblygu cyfleoedd i fod yn rhan o ddull dalgylch.
56. Er mwyn magu hyder mewn atebion ar sail natur, mae angen sicrwydd arnom fod yr atebion hyn yn darparu buddion. Er enghraifft, pan ddefnyddir gwlyptiroedd wedi'u hadeiladu er mwyn sicrhau cydymffurfedd â safonau amgylcheddol rheoleiddiedig, efallai y bydd angen trwydded er mwyn sicrhau'r gwelliannau i ansawdd dŵr neu ymdrechion gwrthbwysu ar gyfer niwtraliaeth maethynnau sy'n ofynnol. Mae hyn yn galluogi penderfyniadau ehangach yn y dalgylch, fel datblygu, i fynd rhagddynt gyda sicrwydd.
57. Rydym wedi datblygu dulliau ac offer pragmatig ar gyfer rheoleiddio atebion ar sail natur. Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal dau dreial gyda Dŵr Cymru yn Nhremeirchion a Phontyfelin ac yn disgwyl y bydd tua phedwar ar ddeg o geisiadau yn dod i law ar gyfer gweithgareddau trin ar sail natur fel rhan o gyflawni'r rhaglen rheoli asedau gyfredol a niwtraliaeth maethynnau. Rydym yn gweithio gyda Chyngor Sir Ceredigion a Dŵr Cymru i fwrw ymlaen â dau o'r ceisiadau hyn (yng ngweithfeydd trin dŵr gwastraff Cenarth a Chilgerran) fel rhan o raglen Dalgylch Arddangos Teifi, gan gynnwys dod o hyd i ddatrysiadau i berchnogaeth trydydd parti ar gyfer y cynigion gwlyptir adeiledig.

Rhwydweithiau Natur – Prosiect Polderau Morol

58. Fe wnaethon ni adeiladu polderau gwaddodion yng Nglanfa Fawr Tredelerch yn yr haf y llynedd. Y cysyniad yw adeiladu ffensys athraidd ar wastadeddau rhynglanwol sy'n llenwi ar lanw uchel ac yn arafu llif dŵr sy'n llawn gwaddod ar y llanw sy'n treio. Dros amser, mae mwy o waddod yn gwaddodi o'r golofn ddŵr, gan arwain at gronni pellach, gan greu morfeydd heli. Nododd astudiaeth ddichonoldeb y byddai'r morfa heli, heb ymyrraeth, yn cael ei cholli ar hyd glannau Tredelerch erbyn 2070, ond bod cyfleoedd i amddiffyn y cynefin, ac mai adfer ac ymestyn y polderau oedd yr opsiwn a ffefrid.
59. Roedd y prosiect yn cynnwys ailosod y ffensys presennol nad oeddent wedi'u cynnal a'u cadw, a chreu polderau newydd i'r gorllewin hefyd. Y nod yw amddiffyn ac adfer morfa heli a gwastadeddau llaid trwy hwyluso dyddodiad mwd a chytrefu llystyfiant wedi hynny, a thrwy hynny wrthdroi'r duedd erydiadol a geir yn y rhanbarth. Mae'r prosiect yn cael ei ystyried yn astudiaeth beilot ar gyfer addasrwydd polderau fel ateb ar sail natur mewn amgylcheddau ynni uwch sy'n debyg i aber afon Hafren. Felly, nod eilaidd yw magu dealltwriaeth o ddatblygiad y safle i lywio prosiectau yn y dyfodol.
60. Digwyddodd y gwaith adeiladu dros gyfnod o dri mis, ac er gwaethaf heriau yn ymwneud â thir meddal a ffenestri llanw byrion, cwblhawyd y prosiect yn llwyddiannus. Mae archwiliadau cynnal a chadw misol wedi dangos bod y cynllun wedi goroesi stormydd y gaeaf, gyda dim ond mân atgyweiriadau wedi'u cynllunio ar gyfer yr haf hwn.

Prosiect Gwella Cyngor Cadwraeth Forol

61. Mae prosiect Gwella Cyngor Cadwraeth Forol, a ariennir gan y Gronfa Rhwydweithiau Natur, wedi datblygu amcanion cadwraeth newydd ar gyfer chwe Ardal Cadwraeth Arbennig forol a chwe Ardal Gwarchodaeth Arbennig forol yng Nghymru. Cyhoeddwyd yr amcanion yn ystod mis Mehefin fel pecynnau cyngor cadwraeth o dan Reoliad 37 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.
62. Cafodd y pecynnau cyngor cadwraeth eu hategu gan gynnal asesiadau o gyflwr ar holl nodweddion ein Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig sydd yng Nghymru yn unig (nid y rheini sy'n croesi'r ffin). Mae'r asesiadau'n dweud wrthym a yw'r cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n nodweddion o'r safle mewn cyflwr ffafriol neu anffafriol. Mae angen yr asesiadau a'r amcanion cadwraeth ar gyfer amrywiaeth eang o'n gwaith, gan gynnwys yr holl gyngor ar waith achos morol, yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (a dyletswyddau adrodd statudol eraill), yr holl brosiectau'n ymwneud â rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig, a'r cyngor arnynt, a chyngor ar adfer natur a rheoli maethynnau mewn dalgylchoedd sy'n gollwng i'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig hyn.

63. O'r 85 o asesiadau cyflwr lefel nodwedd, roedd 32 yn ffafriol (38%), roedd 47 yn anffafriol (55%), ac aseswyd bod gan chwech gyflwr anhysbys (7%). Canfuwyd bod cyfran uwch o nodweddion adar mewn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig mewn cyflwr anffafriol (63%), sydd i'w briodoli'n bennaf i'r fflw adar pathogenig iawn.
64. Mae'r asesiadau hefyd wedi nodi nodweddion morol sydd mewn cyflwr anffafriol oherwydd gorfaethu gan nitrogen anorganig tawdd sy'n tarddu o'r dalgylchoedd i fyny'r afon. Byddwn yn defnyddio cynllun fesul cam i benderfynu pryd y byddwn yn darparu cyngor pellach ar yr angen am niwtraliaeth maethynnau mewn rhai ardaloedd ynghyd â'r offer a chanllawiau perthnasol.

Cefnogi dal a storio carbon

65. Ym mis Mai eleni, cyhoeddodd ein gwasanaeth trwyddedu drwydded forol i Liverpool Bay CCS Limited ar gyfer piblinell carbon deuocsid (CO₂) HyNet. Bydd y biblinell drwyddedig yn cludo hyd at 4.5 miliwn tonnall o garbon deuocsid y flwyddyn o'i glanfa yn Sir y Fflint i'w storio'n barhaol mewn meysydd nwy sydd wedi'u disbyddu ym Môr Iwerddon. Mae'n seilwaith hanfodol sy'n datgloi'r gallu i ddal carbon deuocsid o sawl datblygiad diwydiannol yng ngogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr.
66. Rydym hefyd yn penderfynu ar gais am waith dal carbon yng Gwaith Sment Castle yn Padeswood, ac rydym bellach yn disgwyl dau gais pellach ar gyfer dal carbon ar Lannau Dyfrdwy. Mae'r rhain yn rhan o Glwstwr Diwydiannol Gogledd-ddwyrain Cymru, sy'n cael grantiau buddsoddi gan y llywodraeth, ac yn rhan o gynllun peilot â'r nod o gyflawni targedau sero net.
67. Mae penderfynu ar y trwyddedau yn gymhleth iawn er mwyn sicrhau diogelwch ecolegol ac iechyd dynol, yn ogystal â lleihau effeithiau mordwyo o seilwaith sylweddol sydd wedi'i osod ar wely'r môr. Mae hyn yn dangos proffesiynoldeb ac ymroddiad y staff yn ein timau gwasanaeth trwyddedu a chynghori, a bod Cymru'n gallu arwain y ffordd o ran datgarboneiddio diwydiannol ac arloesedd.

Rheoleiddio dŵr

68. Yn ddiweddar, fe wnaethom gwblhau achos gorfodi yn erbyn Dŵr Cymru am dorri cydymffurfedd â thrwyddedau mewn nifer o asedau, a arweiniodd at ddirwy o £1.35 miliwn i'r cwmni (mae Dŵr Cymru yn apelio yn erbyn hyn). Rydym yn siomedig ein bod yn gorfod cymryd camau o'r fath gan fod hyn yn tynnu sylw at fethiant y diwydiant dŵr i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau trwyddedig. Rydym hefyd yn aros am ddedfrydu Dŵr Cymru mewn perthynas â thorri trwyddedau ac effaith methiannau asedau yng Ngwastadeddau Gwent ar yr amgylchedd. Mae'r ddau achos yn dangos ein hymrwymiad a'n gweithgarwch cynyddol o ran rheoleiddio cwmnïau dŵr.
69. O fis Gorffennaf ymlaen, bydd ein huned cydymffurfedd dŵr newydd yn weithredol. Bydd hyn yn gwella ein gallu i reoleiddio ar draws y sector dŵr ymhellach. Bydd y

tîm yn canolbwyntio ar gynyddu ein gweithgareddau rheoleiddio, gan gynnwys archwilio cwmnïau dŵr, cydymffurfedd â ffurflenni rheoleiddio cwmnïau dŵr, a rhaglennu arolygiadau ledled Cymru. Bydd y tîm yn gweithio'n agos gyda thimau gweithredol lleol i ddarparu cyngor a chyfarwyddyd arbenigol ar gydymffurfedd a gorfodi.

Archwiliad blynyddol Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS)

70. Cynhaliwyd ymweliad gwyliadwriaeth blynyddol UKAS â'n labordy yn Abertawe yn ystod mis Mehefin a'u hargymhellid yw adnewyddu ein statws achrediad ISO 17025:2017 ar ôl i'w canfyddiadau gael eu cwblhau. Mae'r ISO hwn yn safon ryngwladol sy'n nodi'r gofynion cyffredinol ar gyfer cymhwysedd, didueddrwydd a gweithrediad cyson labordai. Dyma'r meicnod byd-eang ar gyfer profi a graddnodi labordai, gan sicrhau y gallant gynhyrchu canlyniadau dilys a dibynadwy yn gyson.
71. Gwnaeth yr aseswyr nifer o sylwadau canmoliaethus a chadarnhaol yn ystod y cyfarfod cloi, gan nodi "profiad cadarnhaol iawn, staff croesawgar iawn sy'n dangos lefel uchel o gymhwysedd", "staff gwych sy'n amlwg yn mwynhau'r hyn maen nhw'n ei wneud ac yn dod ymlaen yn dda â'i gilydd", "offer da sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda", a "pherfformiad rhagorol mewn cynlluniau hyfedredd, wedi'i gefnogi gan berfformiad rheoli ansawdd da iawn". Ystyriwyd bod ein cyfundrefn hyfforddi "o safon uchel iawn".
72. Mae deunaw o ganfyddiadau i gyd, ac mae'r tîm yn gweithio arnyn nhw i'w cwblhau. Mae'r llwyddiant hwn yn dyst i ymrwymiad staff ein labordy i wella'r gwasanaeth maen nhw'n ei ddarparu'n barhaus.

Cyfarfod Sefydliad Cadwraeth yr Eog yng Nghaerdydd

73. Cynhaliwyd 42^{ain} cyfarfod blynyddol Sefydliad Cadwraeth yr Eog (NASCO) ar y cyd gan CNC, Llywodraeth Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yng Nghaerdydd yn ystod mis Mehefin. Roedd y cyfarfod yn llwyddiant sylweddol, o ran cydweithio rhyngwladol ac o ran arddangos ymrwymiad Cymru i ddyfodol yr eog.
74. Daeth y digwyddiad â chynrychiolwyr rhyngwladol o bob cwr o ranbarth Gogledd yr Iwerydd ynghyd i drafod cadwraeth a rheoli'r eog. Prif genhadaeth NASCO yw gwarchod, adfer, gwella a rheoli stociau'r eog yn rhesymol trwy gydweithrediad rhyngwladol. Ochr yn ochr ag aelod-wladwriaethau, roedd cyrff anllywodraethol sy'n cefnogi cadwraeth yr eog hefyd yn bresennol ac, am y tro cyntaf, cynrychiolwyr a sefydliadau pobloedd brodorol, sy'n caniatáu i bobloedd brodorol gymryd rhan fel deiliaid hawliau.
75. I ategu sesiynau ffurfiol y gynhadledd, fe wnaethom drefnu dwy daith maes i ddangos y pwysau y mae'r eog yn eu profi ac ymdrechion cadwraeth ymarferol. Cefnogwyd taith cwch i Forglawdd Bae Caerdydd gan Awdurdod Harbwr Caerdydd, gan ganiatáu i gynrychiolwyr ddeall hanes dociau Caerdydd, adeiladu a

gweithredu'r morglawdd, yr ysgol bysgod a gwaith monitro yn y morglawdd, a photensial aber afon Hafren ar gyfer ynni cynaliadwy. Rhoddodd taith un diwrnod o hyd i safleoedd allweddol ar afon Wysg gyfle i weld gwelliannau i'r ysgol bysgod a gwaith adfer cynefinoedd torlannol, tra dangosodd Sefydliad Gwy ac Wysg arferion rheoli fferm buddiol ar afon Crai.

76. Cafodd ein cyfraniadau – drwy arweinyddiaeth dechnegol, cynnal, ac ymgysylltu yn y maes – eu cydnabod a'u gwerthfawrogi'n eang gan ein cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, DEFRA, ysgrifenyddiaeth NASCO a chynrychiolwyr.

Materion masnachol

Strategaeth fasnachol

77. Mae'r blwch offer ymgynghori newydd bron wedi'i gwblhau, ac mae gennym dri eiriolwr o wahanol feysydd o'r busnes yn ymgysylltu â chydweithwyr ar y fersiwn nesaf o'r ddogfen, a fydd yn canolbwyntio ar werth y tir yn ein gofal. Bydd ymgynghoriad allanol yn dechrau yn Sioe Frenhinol Cymru ac yn parhau drwy gydol yr haf a dechrau'r hydref. Bydd yn canolbwyntio llawer mwy ar werth a gwrthbwysu'r risgiau i'r sefydliad, a bydd yn anelu at ymgorffori rhywfaint o'n gwaith ar y model economi gymysg.

WoodBUILD 2025

78. Aeth Dominic Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, i gynhadledd WoodBUILD, a drefnwyd gan Woodknowledge Wales, gyda nifer o gydweithwyr CNC. Cynhaliwyd y digwyddiad yn Llandudno, ac roeddem yn gallu cynnal ymweliad cyn y gynhadledd â Choedwig Gwydir. Calvin Jones, aelod o'r Bwrdd, oedd 'tyst crwydrol' y gynhadledd.
79. Mae digwyddiadau WoodBUILD blynyddol yn dod â rhanddeiliaid y sector pren ac adeiladu ynghyd i gydweithio ac arloesi ar gyfer defnyddio pren cartref wrth adeiladu. Un o'n prif gamau gweithredu oedd rhoi hwb i 'contractau cyflenwi dynodedig', rhan o'n cynllun gwerthu a marchnata pren, pan ydym yn datblygu ffyrdd o gyfeirio'r pren yr ydym yn ei dyfu ar y tir yn ein gofal i'w ddefnyddio mewn adeiladu er mwyn optimeiddio faint o garbon sy'n cael ei storio. Nid ydym wedi cyflawni trefniant o'r fath eto, ond cafwyd diddordeb cadarnhaol sylweddol gan sawl cwmni adeiladu pren, ac rydym yn benderfynol o fanteisio ar hyn.
80. Yn ystod y gynhadledd, fe wnaethom gyhoeddi, ar yr un pryd, yr ymarfer datganiadau o ddiddordeb cyntaf ar gyfer 'contract gwerthu blaengar', pan ydym yn ymrwymo i drefniant aml-flwyddyn â chwmni cynaeafu a ddylai ei alluogi i fuddsoddi yn y math o allu a chapasiti y mae eu hangen arnom i reoli ein coedwigoedd mewn ffordd gynaliadwy. Fe wnaeth hyn ysgogi diddordeb cadarnhaol hefyd.

Materion mewnol

Dull syml o ymdrin â cheisiadau am fynediad

81. Mae'r Ganolfan Cwsmeriaid wedi bod yn ymwneud yn agos â llunio a pharatoi ar gyfer y broses cais mynediad newydd (a elwid gynt yn broses ganiatâd), sydd bellach yn fyw ac yn galluogi pobl i wneud cais i gynnal rhai digwyddiadau a gweithgareddau ar dir a reolir gan CNC. Gweithiodd y tîm mewn partneriaeth â chydweithwyr ar draws y sefydliad drwy gydol y cyfnod datblygu, gan gyfrannu at grwpiau gorchwyl a gorffen, helpu i fireinio'r broses, a sicrhau y byddai'r dull yn ymarferol ac yn gyson ac yn canolbwyntio ar y cwsmer.
82. Gyda'r broses bellach ar waith, rydym yn brysur yn asesu'r ôl-groniad presennol a cheisiadau newydd, ac wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Dim ond y dechrau yw hyn. Rydym yn mabwysiadu dull ailadroddus, yn parhau i gasglu adborth, yn mireinio sut rydym yn gweithio, ac yn datblygu mesurau perfformiad i fonitro a gwella'r gwasanaeth. Rydym hefyd wedi cyflwyno cais i flaenoriaethu'r broses hon ar gyfer prosiect dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr drwy CNC2030, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i wella profiad y cwsmer a'r staff yn yr hirdymor.

Yr wybodaeth ddiweddaraf am brosiect recriwtio ac e-recriwtio

83. Mae gweithgarwch recriwtio wedi cynyddu'n sylweddol yn dilyn yr Achos dros Newid, ac mae dros 430 o swyddi gwag wedi'u hysbysebu ers 9 Mawrth. Mae hwn yn gynnydd sydyn o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, ac mae'n cynnwys rolau sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau allweddol fel seilwaith cam un a diwygio gwastraff. Mae'r tîm recriwtio ac adnoddau wedi ymateb yn gyflym, gan gydbwysu'r nifer uchel o geisiadau â'r angen am ansawdd a chydymffurfedd. Mae cydweithio wythnosol ag arweinwyr cynllunio gweithlu'r gyfarwyddiaeth yn helpu i sicrhau bod ymdrechion yn canolbwyntio ar y rolau pwysicaf.
84. Mae recriwtio'n cael ei gyflawni'n gyfan gwbl drwy brosesau â llaw ar hyn o bryd. Mae hyn yn rhoi straen sylweddol ar dimau mewnol a rheolwyr cyflogi, yn enwedig wrth i'r galw barhau i gynyddu. Er mwyn helpu i reoli hyn, rydym wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr ym maes cyllid i dynhau llywodraethu, ac mae gweithgarwch recriwtio bellach wedi'i alinio'n uniongyrchol â thargedau ariannol. Mae paneli gweithlu'r gyfarwyddiaeth hefyd wedi helpu i wella blaenoriaethu a'r broses o wneud penderfyniadau.
85. Er mwyn meithrin gwydnwch a chynyddu capasiti, mae pedair swydd dros dro wedi'u sicrhau. Mae'r adnoddau ychwanegol yn sicrhau bod y tîm mewn gwell sefyllfa i reoli'r galw a chefnogi'r newid i brosesau digidol.
86. Er mwyn ehangu ein cyrhaeddiad a denu talent amrywiol o safon uchel, rydym wedi cyflwyno ffrydiau swyddi awtomataidd. Mae hyn yn golygu bod pob swydd wag fyw yn cael ei symud yn uniongyrchol i blatfformau allweddol, gan gynnwys LinkedIn,

Canolfan Byd Gwaith, Diversity Jobs ac eraill, ochr yn ochr â hysbysfyrddau swyddi proffesiynol, gan ein helpu i gysylltu â chynulleidfia ehangach. Ochwr yn ochr â hyn, rydym yn gweithio gyda thri phartner allanol – Yolk Recruitment, Pertemps ac Odgers Berndtson – i gefnogi recriwtio costeffeithiol o ran swyddi uwch a swyddi anodd eu llenwi.

87. Carreg filltir allweddol wrth foderneiddio ein swyddogaeth adnoddau yw'r contract diweddar y'i dyfarnwyd i Kallidus i ddarparu system e-recriwtio newydd. Bydd y datrysiad digidol hwn yn cymryd lle prosesau â llaw, gan symleiddio'r profiad i ymgeiswyr a rheolwyr llogi. Mae'r prosiect bellach yn y camau datblygu a phrofi, gyda'r bwriad o'i roi ar waith ym mis Medi eleni. Fel gydag unrhyw newid sylweddol i system arall, mae risgiau o ran mabwysiadu defnyddwyr a pharhad yn cael eu rheoli'n weithredol trwy ymgysylltu'n gynnar a hyfforddiant a thrwy gynnig cymorth wrth newid i'r system newydd. Mae'r buddsoddiad yn gosod y sylfaen ar gyfer swyddogaeth recriwtio fwy effeithlon y gellir ei hehangu, sy'n addas ar gyfer y dyfodol, ac sy'n diwallu anghenion hirdymor y sefydliad yn well.

Cyfathrebu

Cyfathrebu corfforaethol

88. Mae rhannu newyddion am benodiad aelodau newydd y Bwrdd, a chmau allweddol wrth benodi cadeirydd newydd, wedi bod yn un o'r pethau y mae'n negeseuon cyfathrebu mewnol wedi bod yn canolbwyntio arno dros y cyfnod hwn. Rydym hefyd wedi ymateb yn gadarn i ymholiadau gan y cyfryngau yn sgil cyhoeddi adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd ar ein sesiwn graffu flynyddol, gan nodi'r ffeithiau mewn perthynas â'r newidiadau i'r ymateb i ddigwyddiadau, y broses IR35 a chanolfannau ymwelwyr.
89. Fe wnaethon ni ymateb yn rhagweithiol ac yn gadarnhaol i gyflwyniad Bil yr Amgylchedd, gan nodi sut y byddwn yn cefnogi ei weithrediad drwy gyfrannu ein tystiolaeth, ein harbenigedd a'n mewnwelediad gweithredol.
90. Rydym wedi gweithio'n agos gyda thimau gweithredol i reoli cydberthnasau a lleddfu pryderon cymunedol ynghylch effaith ymwelwyr yn Niwbwrch. Ynghyd â chysylltiadau cyfryngau traddodiadol, mae ein defnydd tactegol o sianeli cyfryngau cymdeithasol i rannu cynnwys fideo person cyntaf, wedi'i ffilmio gennym ni ein hunain, wedi ein galluogi i rannu gwybodaeth mewn ffordd greadigol am sut rydym yn gweithio ochr yn ochr â'r gymuned i reoli'r problemau ar y safle.
91. Wrth i'r broses Achos dros Newid ddod i ben, rydym wedi parhau i ddarparu cymorth i dimau i rhannu gwybodaeth am effeithiau ar wasanaethau yn fewnol ac yn allanol, yn enwedig oedi ac ailgychwyn y broses ganiatâd.
92. Wrth inni edrych ymlaen at gyhoeddi'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ar ddiwedd y flwyddyn, fe wnaethom hefyd gefnogi'r broses o gyhoeddi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025.

Mae cymunedau'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd

93. Mae'r effaith y mae cyfnod parhaus o dywydd cynnes a sych yn ei chael ar yr amgylchedd yn parhau i ddenu sylw'r cyfryngau. Rydym wedi hyrwyddo ein gwaith gyda phartneriaid yn rhagweithiol i reoli tanau gwyllt ac wedi manteisio ar y cyfle i rannu gwybodaeth am y ddifrod y mae'r digwyddiadau hyn yn ei achosi, yr hyn y gellir ei wneud i leihau'r risg, a'r costau a'r amser y mae eu hangen i adfer.
94. Gan weithio gyda'r tîm Adnoddau Dŵr, Llywodraeth Cymru a'r cwmnïau dŵr, fe wnaethom chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o gyflwyno sesiwn frifio dechnegol i gynrychiolwyr y cyfryngau ar effeithiau tywydd sych. Roedd hyn yn caniatáu inni amlinellu rolau a chyfrifoldebau, a rhannu negeseuon ynghylch sut y diffinnir sychder ac am ddefnyddio dŵr yn effeithlon a fydd yn helpu i lywio'r broses adrodd yn y dyfodol ar unrhyw newidiadau mewn statws.
95. Cynigiodd Diwrnod Toeau Gwyrdd y Byd gyfle i dynnu sylw at ein hymdrechion arloesol i wneud mannau trefol yn wyrdd. Fel aelodau o'r Sefydliad Toeau Gwyrdd, fe wnaethom gynnal ar y cyd a hyrwyddo ein digwyddiad ar do gwyrdd mwyaf Cymru yn Abertawe, gan ddangos sut y gall gweithio ar y cyd greu mannau iachach a helpu i liniaru'r effeithiau y mae newid yn yr hinsawdd yn eu cael ar ein dinasoedd.

Llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf

96. Roedd rhannu'n rhagweithiol ein gwaith ar wella ansawdd ein dyfroedd yn un o'r pethau allweddol yr oeddem yn canolbwyntio arno dros y cyfnod hwn. Daeth ymrwymiad hirhoedlog ein timau rheoleiddio i sicrhau cydymffurfedd â thrwyddedau yn Dŵr Cymru i'r amlwg wrth inni erlyn y cwmni am dros 800 o achosion o dorri amodau ei drwyddedau rhyddhau carthion. Arweiniodd yr achos at ddirwy o £1.35 miliwn, gan ddenu sylw eang yn y cyfryngau.
97. Cawsom gyfle pellach yn y cyfweiliadau a wnaethom ar BBC Cymru a *Newyddion* mewn ymateb i Adolygiad Cunliffe ar reoleiddio'r diwydiant dŵr i bwysleisio'n hymrwymiad i reoleiddio cryf. Rydym wedi hyrwyddo tri cham gorfodi llwyddiannus yn rhagweithiol – erlyniad am dipio anghyfreithlon yng Nghoed Moel Famau a dau achos yn ymwneud â physgota anghyfreithlon yn Llangennech ac Ystrad Mynach.
98. Roedd dechrau'r tymor dŵr ymdrochi yn cynnig cyfle i rannu gwaith ein swyddogion amgylcheddol a'r gwaith maen nhw'n ei wneud i brofi dyfroedd mewn safleoedd ymdrochi dynodedig i benderfynu a ydyn nhw'n bodloni safonau amgylcheddol llym ai peidio. Fe wnaethon ni gyflwyno cynnwys ar ddechrau'r tymor i hysbysu'r cyhoedd am y gwahaniaeth rhwng gordyfiant algâu a llygredd.
99. Fe wnaethom gyflwyno'r negeseuon cyfathrebu a baratowyd i amlinellu'r newidiadau i sut rydym yn ymateb i ddigwyddiadau llygredd lefel isel yn gynharach mewn ymateb i gyhoeddiad adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith. Bwriad ein gwaith ymgysylltu â chydweithwyr, swyddogion etholedig a

rhanddeiliaid yw ein helpu i nodi'r cyd-destun ar gyfer y newidiadau a phwysleisio pa mor bwysig yw hi bod y cyhoedd yn parhau i roi gwybod am ddigwyddiadau.

100. Roedd Diwrnod Amgylchedd y Byd yn gyfle defnyddiol i dynnu sylw at y ffordd yr ydym yn helpu i leihau llygredd. O'n cynlluniau gwyrddu TGCh i'n gwaith i gael gwared ar gychod moelion o'n hamgylchedd morol, fe wnaethon ni arddangos yr ymdrechion a wneir ar draws y sefydliad i helpu i atal llygredd plastig.

Mae natur yn gwella

101. Mae buddion gweithio mewn partneriaeth wedi cael eu hamlygu mewn amrywiaeth o straeon am ein hymdrechion i adfer natur. Mae'n partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sy'n canolbwyntio ar gadwraeth y fritheg berlog, yn tynnu sylw at y ffordd mae ein gwybodaeth a'n harbenigedd arbenigol o ran rheoli tir yn cefnogi dyfodol y rhywogaeth hon. Mae lansiad gwefan newydd Natur am Byth wedi darparu lle pwrpasol i dynnu sylw at gynnydd y prosiect, a lle i bob partner hyrwyddo'u llwyddiannau. Mae parhau i gyflwyno prosiectau a chynlluniau adfer afonydd a ariennir gan y Gronfa Rhwydweithiau Natur hefyd yn helpu i ddatblygu banc o astudiaethau achos i lywio ein hymgyrchoedd yn y dyfodol.

Crynodeb o gwynion, canmoliaeth a gohebiaeth

102. Hyd at ganol mis Mehefin, mae naw cwyn a phedwar cais Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol wedi dod i law mewn perthynas â phenderfyniad Cyngor Bro Morgannwg i gymeradwyo cynnig i osod parc dŵr ym Mharc Gwledig Llynnoedd Cosmeston. Mae ymatebwyr wedi codi pryderon ynghylch yr effaith bosibl y gellir ei chael ar fioamrywiaeth a rhywogaethau gwarchodedig oherwydd dynodiad y safle fel SoDdGA, a'r diffyg ymgynghori cyhoeddus canfyddedig. Mae gwrthwynebiad cryf yn yr ardal leol, ac mae dros 5,000 o drigolion wedi llofnodi deiseb. Ymhlith y materion eraill a godwyd yw pryderon ynghylch aflonyddwch sŵn, ansawdd a diogelwch dŵr, ac effeithiau hirdymor y datblygiad ar yr amgylchedd. Mae rhai wedi awgrymu dulliau amgen o gynhyrchu incwm i'r parc sy'n fwy cydnaws â'i werth ecolegol.
103. Yn dilyn y newid diweddar i'n polisi adborth ar ddigwyddiadau – pan nad yw timau gweithredol bellach yn darparu diweddariadau uniongyrchol i'r bobl sy'n adrodd am ddigwyddiadau – rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymholiadau ac wyth cwyn gan aelodau'r cyhoedd sydd am ddeall pa gamau sydd wedi'u cymryd. Mae cwsmeriaid wedi dechrau defnyddio ceisiadau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol i geisio'r un wybodaeth ag yr oeddent yn ei chael yn fwy anffurfiol o'r blaen. Mewn gwirionedd, mae hyn yn golygu bod adborth yn dal i gael ei roi, ond nawr drwy sianeli ffurfiol o gyrchu wybodaeth. Mae llythyr gan Aelod o'r Senedd hefyd wedi dod i law ar ran etholwr yn codi pryderon ynghylch y diffyg adborth a gafwyd yn dilyn adroddiad am ddigwyddiad.
104. Yn unol â sefydliadau tebyg eraill ledled y DU, nid ydym yn rhoi adborth unigol ar ein hymateb i adroddiadau am ddigwyddiadau posibl, torri rheoliadau neu

weithgarwch troseddol, nac ar ganlyniad y rhain. Mae hyn er mwyn inni allu canolbwyntio ein hadnoddau ar ddarparu gwasanaeth digwyddiadau a rheoleiddio effeithlon a chosteffeithiol. Byddwn yn parhau i fonitro gweithrediad y dull polisi newydd hwn. O ran adroddiadau niferus am ddigwyddiadau, er na fyddwn yn rhoi adborth i bob galwad, byddwn yn ystyried cyhoeddi cylchlythyrau a rhoi'r newyddion diweddaraf drwy Citizen Space.

105. Yn dilyn ein herlyniad llwyddiannus diweddar yn erbyn Dŵr Cymru, a arweiniodd at ddirwy o £1.35 miliwn, rydym wedi cael sawl cais Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn gofyn am wybodaeth fanwl am yr achos. Mae'r ceisiadau hyn yn dynodi lefel uchel o ddiddordeb cyhoeddus yn yr achos a phryderon ehangach ynghylch atebolrwydd cyrff cyhoeddus, tryloywder o ran costau a gorfodi amgylcheddol. Rydym yn prosesu'r ceisiadau hyn yn unol â'n prosesau mewnol ac yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Rhagolwg

- Dydd Llun, 21 Gorffennaf, hyd ddydd Iau, 24 Gorffennaf – Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru
- Dydd Mercher, 13 Awst – Galwad am yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Bwrdd
- Dydd Mercher, 10 Medi – Pwyllgor Cyllid
- Dydd Mawrth, 16 Medi – Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Dydd Mercher, 17 Medi – Galwad am yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Bwrdd
- Dydd Mercher, 24 Medi – Pwyllgor Rheoli'r Perygl o Lifogydd
- Dydd Iau, 25 Medi – Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid
- Dydd Mercher, 1 Hydref – Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig
- Dydd Iau, 2 Hydref – Pwyllgor Ystadau Tir / Pwyllgor Rheoli'r Perygl o Lifogydd ar y cyd
- Dydd Mercher, 8 Hydref, a dydd Iau, 9 Hydref – Cyfarfod y Bwrdd ym mis Hydref

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	16 Gorffennaf 2025
Teitl y papur:	Diweddariad i'r bwrdd gan y Pwyllgor Cyllid
Cyfeirnod y papur:	25-07-B09
Noddwyd y papur gan:	Helen Pittaway, Aelod o'r Bwrdd
Paratowyd y papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynwyd y papur gan:	Helen Pittaway, Aelod o'r Bwrdd
Diben y papur:	Er gwybodaeth
Crynodeb	Darparu cymorth i'r cadeirydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd ar y Pwyllgor Cyllid – 19 Mehefin 2025

Cefndir

Mae'r papur hwn yn gymorth i'r cadeirydd wrth roi diweddariad llafar i'r bwrdd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 19 Mehefin 2025. Gall cofnodion y cyfarfodydd hyn fod ar gael i unrhyw aelod o'r bwrdd sydd â diddordeb.

Diweddariad ar y gyllideb a chynllunio busnes ar gyfer 2025-26

1. Darparwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am osod cyllideb 2025-26, gan gynnwys mân newidiadau ers cyfarfod diwethaf y bwrdd, ynghyd â'r camau nesaf ar gyfer cynllunio'r gweithlu a newidiadau pellach nad ydynt wedi'u hadlewyrchu yn ail fersiwn y pecynnau cyllideb. Crynhowyd y risgiau a'r cyfleoedd ariannol allweddol ar gyfer 2025-26.
2. Holodd y Pwyllgor Cyllid a oedd rhagdybiaethau ynghylch prisiau olew wedi cael eu hadolygu o ystyried y dirwedd wleidyddol ryngwladol. Croesawodd y Pwyllgor Cyllid y camau nesaf ar gynllunio'r gweithlu, ond heriodd a oedd y sefydliad wedi cael digon o wybodaeth am nifer y staff a chyllidebau staff cyn eu rhyddhau. Bu'r pwyllgor yn trafod yr amserlen ar gyfer cwblhau a dosbarthu cyllidebau yn ogystal â'r dull recriwtio.

Cymeradwyaethau ariannol

3. Ceisiwyd cymeradwyaeth ar gyfer yr achos busnes amlinellol ar gyfer afon Ritec yn Ninbych-y-pysgod, y tri fframwaith ar gyfer caffael mawndir, coedol a llifiau cadwyn, a data, digidol a thechnoleg, ac ar gyfer dau amrywiad contract.
4. Bu'r pwyllgor yn trafod y posibilrwydd o ffynonellau ariannu allanol ar gyfer Dinbych-y-pysgod, yn unol â her y Dirprwy Brif Weinidog, a gofynnodd i'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd drafod sut y gallai helpu i ddylanwadu ar adolygiad Llywodraeth Cymru o'r canllawiau ar gyfer achosion busnes. Gofynnwyd am sicrwydd y byddai gwariant ar yr holl fframweithiau yn cael ei fonitro a'i ddefnyddio'n briodol. Eglurwyd y cynnydd mewn hyblygrwydd a gwerth am arian ar gyfer y fframwaith data, digidol a thechnoleg, yn ogystal â sut y byddai hyn yn gweithio o ran y cyfyngiadau cyllideb blynyddol. Nodwyd i'r pwyllgor hefyd sut roedd y maes caffael a'r Gwasanaeth Cymorth Rheoli Contractau yn gweithio gyda'r sefydliad ehangach i reoli'r fframwaith. Eglurwyd yr angen gweithredol am y fframwaith coedol a llifiau cadwyn.
5. Cymeradwyodd y Pwyllgor Cyllid bob un o'r chwe chymeradwyaeth ariannol. Bu'r pwyllgor yn trafod rhoi cyhoeddusrwydd i'r fframweithiau a'r ffordd y gallai CNC gynyddu cyfleoedd yn y sector cyhoeddus i gwmnïau llai a chynorthwyo staff yn hyn o beth.

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2024-25

6. Eglurwyd rolau'r gwahanol bwyllgorau wrth graffu ar Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2024-25, yn ogystal â'r gwahaniaethau rhwng y cyfrifon blynyddol a'r Adroddiad Perfformiad Ariannol Diwedd Blwyddyn. Gofynnwyd i'r pwyllgor am eu sylwadau ar adran perfformiad Adroddiad Blynyddol 2024-25.
